



ADOLYGIAD O GADERNID FFERMIO YNG NGHYMURU

Kevin Roberts
Ionawr 2014

Tabl Cynnwys

Tabl Cynnwys.....	1
Cyflwyniad.....	2
Y Diweddaraf am Gam I.....	9
Cam II.....	12
Dull.....	12
Cyd-destun	12
Cryfderau a Gwendidau modelau busnes ffermio presennol Cymru	14
Dadansoddiad Ariannol	17
Diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC)	24
Canlyniadau dim ymyriad	26
Gwella Perfformiad Technegol ac Amgylcheddol ar Ffermydd.....	28
Ymyriad.....	29
Cynnig sy'n ymwneud ag Amaethyddiaeth Gynaliadwy	31
Ymchwil, Datblygu, Sgiliau a Chyfnewid Gwybodaeth	34
Y Gadwyn Gyflenwi Ehangach	37
Cynlluniau Amgylcheddol	39
Taliad am wasanaethau ecosystemau (TWE)	42
Ymuno, Gadael a Symud yn y Diwydiant	46
Monitro cynnydd	47
Llyfryddiaeth.....	49
Atodiad 1 – Map o Ardaloedd Llai Ffafriol Cymru.....	51
Atodiad 2 – Map yn dangos yr ardaloedd sy'n cael eu heffeithio	52
Atodiad 3 – Rhestr Ymgynghori	53
Atodiad 4 – Llythyr Argymhellion Interim.....	55
Atodiad 5 – Map Parthau Rhostir	62
Atodiad 6 – Llythyr yn Crynhoi'r Argymhellion.....	63
Atodiad 7 – Cylch Gorchwyl yr Adolygiad.....	67

Cyflwyniad

Comisiynwyd yr adroddiad hwn ym mis Ebrill 2013, ac ers hynny rwyf wedi treulio fy amser yn cyfarfod rhanddeiliaid ac yn ymgysylltu â gwahanol rannau o'r diwydiant amaethyddol. Roeddwn yn benderfynol o seilio fy argymhellion ar wybodaeth gadarn am y problemau oedd yn wynebu'r diwydiant, yn strategol ac ar lawr gwlad. Cefais gyfle i gyfarfod yr Undebau Amaethyddol, ond roeddwn hefyd yn awyddus i gyfarfod y ffermwyr, nad ydynt o reidrwydd yn cael eu clywed, ond sydd er hynny â chyfraniad gwerthfawr i'w wneud.

Mae'r croeso a'r trafodaethau agored a gefais wedi fy ngalluogi i greu darlun o gryfderau a gwendidau'r diwydiant a gweld ble mae angen y cymorth fwyaf er mwyn cyflawni'r prif nod – creu diwydiant mwy cystadleuol sy'n canolbwyntio mwy ar y farchnad.

Cafodd yr Adolygiad ei wneud mewn dau gam, yn bennaf gan y byddai angen i unrhyw argymhellion y byddwn yn eu gwneud mewn cysylltiad â'r tywydd eithafol a gawsom ym mis Mawrth 2013, pe baent yn cael eu derbyn, gael eu datblygu dros fisoedd yr haf er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith fel rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i weithgaredd Cadernid Gwledig yn y dyfodol. Er i mi edrych ar amaethyddiaeth Cymru yn ei chyfanrwydd, roedd y cylch gwaith yn gofyn i mi ganolbwyntio ar yr ucheldir. At ddiben yr adroddiad hwn, mae'r ucheldir yn golygu tir sydd wedi'i ddosbarthu fel Ardal dan Anfantaais Fawr - gweler Atodiad 1.

Gallwn fod yn optimistaidd ynglŷn â ffermio yn gyffredinol yn y tymor canolig a'r tymor hir am nifer o resymau - cynnydd yn y galw am fwyd yn fyd-eang, cyfleoedd ar gyfer marchnadoedd newydd a chydabyddiaeth gynyddol y gall ffermio ddarparu gwasanaethau amgylcheddol yn ogystal â chynhyrchu bwyd. Mae Cymru mewn sefyllfa dda i gystadlu â'r goreuon ar y llwyfan byd-eang, er bod 58% o'r Arwynebedd Amaethyddol a Ddefnyddir yng Nghymru yn Ardaloedd dan Anfantaais Fawr. Mae amgylchiadau'n anos yn yr ucheldir oherwydd yr amodau caled ac oherwydd bod y tir yn llai cynhyrchiol. Gwelwyd hyn yn amlwg iawn yn ystod y cyfnod o dywydd garw a gawsom, a'r tywydd eithafol a ddaeth ar ei ôl, pan gofnododd elusennau ffermio gynnydd o 400% yn nifer y galwadau am gymorth (Royal Agricultural Benevolent Institution, 2013).

Gwelwyd patrwm o amrywiadau mewn nifer o fesuryddion ariannol, ac roedd yn amlwg bod angen canolbwyntio ar wella perfformiad a chynhyrchiant llawer o fusnesau fferm er mwyn gwella perfformiad cyffredinol y sector. Rhaid i ni gydnabod hefyd, fel sy'n digwydd mewn sectorau busnes eraill, bod ffactorau eraill sy'n gallu helpu i wella cynhyrchiant - busnesau newydd mwy effeithlon yn ymuno â'r sector, cyfleoedd i fentrau mwy cynhyrchiol ehangu, a busnesau sy'n methu â bodloni gofynion y farchnad yn effeithlon yn gadael y sector.

Mae trafodaethau cynnar â rhanddeiliaid wedi peri i mi gredu na fydd ateb tymor byr yn ddigon. Mae angen ymdrech fawr dros gyfnod hwy i greu busnesau cryfach, ac mae'n amlwg y bydd ffermydd sy'n dal i weithredu ar golled yn cael anhawster mawr i fanteisio ar unrhyw gyfleoedd a fydd yn codi yn y dyfodol.

Mae'n amlwg bod gennym weithlu ymroddgar sy'n ymfalchïo yn eu ffermydd a'u cynnyrch. Ond daeth yn amlwg yn y trafodaethau, yn rhy aml o'r hanner, nad oedd dealltwriaeth dda iawn o gostau cynhyrchu a thueddiadau'r farchnad ehangach, yn enwedig yn y sector defaid.

Mae'n werth i ni edrych hefyd sut y mae amaethyddiaeth yn helpu i ddod â manteision cymdeithasol-economaidd ehangach i gymdeithas. Er nad oedd hyn yn rhan o gwmpas yr adroddiad hwn, dangosodd trafodaethau gyda rhanddeiliaid pa mor hanfodol yw'r cymunedau amaethyddol o safbwynt lles cyffredinol ardaloedd gwledig Cymru. Mae angen cydbwysedd er mwyn sicrhau bod unrhyw gynigion sy'n cael eu gwneud hefyd yn cefnogi gweithgaredd sy'n helpu i wneud yr economi wledig ehangach yn gryfach yn y dyfodol mewn ardaloedd sydd â phoblogaeth wasgaredig.

Ond mae angen edrych y tu hwnt i gât y fferm er mwyn datrys y broblem gyfan. Rhaid i'r diwydiant bwyd chwarae ei ran hefyd os ydym o ddifrif ynglŷn â chael cadwyn gyflenwi gynaliadwy a blaengar yng Nghymru â dulliau arloesol o ddatblygu cynnyrch er mwyn cynyddu gwerthiant. Ar sail y dystiolaeth rwyf wedi ei hystyried - data economaidd ac ariannol, cyfrifon ffermydd unigol a chyfweiliadau gyda rhanddeiliaid - fy mlaenoriaeth yw argymell mesurau a fydd yn helpu i gynyddu elw ffermydd ym mhob sector. Fodd bynnag, mae fy adolygiad wedi dangos pa mor fregus yw'r ucheldir, ac o ganlyniad rwyf wedi canolbwyntio cryn dipyn ar argymell mesurau a fydd yn targedu ffermydd yr ucheldir gan ganiatáu i'r sector gadw digon o

fàs critigol i allu manteisio ar y cyfleoedd yn y dyfodol ac adeiladu ar yr enw da sydd gan ddiwydiant cig coch Cymru ar hyn o bryd.

Credaf fod angen i Lywodraeth Cymru sicrhau pecyn cyllido sylweddol er mwyn galluogi'r gwelliant hwn, a dyna pam y gwnes i gyfarfod y Gweinidog yn gynharach i dynnu ei sylw at fy argymhelliad i drosglwyddo'r uchafswm y gellir ei drosglwyddo (15%) o Golofn 1 i Golofn 2.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy marn ynglŷn â sut y gellir cyflawni hyn.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch i'r holl randdeiliaid a swyddogion Llywodraeth Cymru sydd wedi rhoi eu hamser i ddod i'm cyfarfod ac i gyfathrebu â mi yn ystod y prosiect hwn.

Crynodeb o'r Argymhellion

- Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil i edrych ar ddulliau effeithiol eraill o reoli risg ym myd amaeth. Dylid gwneud hyn mewn partneriaeth â rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig sydd â diddordeb mewn risg yn y diwydiant amaethyddol;
- Derbyn y Cynllun Ymdrin â Hapddigwyddiadau arfaethedig;
- Datblygu Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru ar gyfer y dyfodol fel bod modd rhoi'r Erthyglau perthnasol ar waith ar unwaith os bydd angen yn ystod cyfnod y rhaglen nesaf yn hytrach na gorfod gofyn i'r Comisiwn Ewropeaidd am addasiadau a all achosi oedi maith;
- Dylai ffrydiau polisi perthnasol Llywodraeth Cymru ystyried cynnwys mecanweithiau i helpu'r diwydiant i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd a thywydd garw yn y dyfodol;
- Dylai Llywodraeth Cymru ddal i weithio gyda Phrifysgol Bangor, HCC a'r Comisiwn Ewropeaidd er mwyn ymchwilio i ffyrdd eraill o gael gwared ar stoc trig ar ffermydd;
- Dylai swyddogion Llywodraeth Cymru ofyn am eglurhad gan y Comisiwn Ewropeaidd ynglŷn â beth yw trychineb naturiol a digwyddiad trychinebus yn nhermau'r rheoliadau;
- Dylai ffermydd Eidion a Defaid yr Ucheldir fod yn sector blaenoriaeth wrth annog arallgyfeirio i fusnesau anamaethyddol a rhoi cymorth i gychwyn busnes;
- Trosglwyddo'r uchafswm o 15% o Golofn I i Golofn II;
- Y cyfnod trosglwyddo i'w gwblhau yn ystod cyfnod y Rhaglen Datblygu Gwledig nesaf;
- Cynnal adolygiad canol tymor o effaith diwygio Colofn I y Polisi Amaethyddol Cyffredin ar ddiwydiant amaethyddol Cymru er mwyn mesur effaith y polisi presennol ar arferion ffermio, gan roi pwyslais ar yr ucheldir;

- Dylai'r Adran Cyfoeth Naturiol a Bwyd weithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg er mwyn dadansoddi effaith ardaloedd yr ucheldir ar gynnal a datblygu'r iaith Gymraeg ac asesu unrhyw ofynion polisi cysylltiedig ar gyfer y dyfodol;
- Dylai swyddogion polisi Llywodraeth Cymru gadw llygad o hyd am ffactorau allanol a allai leihau gallu cyffredinol y diwydiant i gystadlu;
- Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu astudiaeth debyg er mwyn canfod sefyllfa Cymru o ran effaith y PAC ar weithgaredd amaethyddol fesul uned o allbwn;
- Dylid darparu dull o ymateb i ofynion y farchnad mewn cynllun pwrpasol sy'n cynnwys yr offer a'r wybodaeth a fydd yn galluogi ffermwyr i ddatblygu busnesau cryfach;
- Dylid mabwysiadu dull gweithredu haenog, sydd wedi'i deilwra – ac sy'n canolbwyntio ar ansawdd – er mwyn darparu gwasanaethau ymestyn amaethyddol. Dylai pwyslais ar gynyddu cynhyrchiant a lleihau'r effeithiau negyddol ar yr amgylchedd fod yn rhan ganolog o waith datblygu polisi yn y dyfodol (gan sicrhau nifer o ganlyniadau o un ymyriad lle bo modd);
- Mae angen i ffermwyr ymwneud â dylanwadu ar yr agenda ymchwil ar gyfer y dyfodol drwy gynlluniau fel y Bartneriaeth Arloesedd Ewropeaidd newydd;
- Dylid datblygu cynigion ymchwil ar y cyd â'r diwydiant drwy ddull amlddisgyblaethol a dylai'r holl weithgareddau trosglwyddo gwybodaeth dilynol adlewyrchu trywydd diwydiant ffermio Cymru yn y dyfodol;
- Dylid sefydlu modelau Cyfnewid Gwybodaeth sy'n darparu budd i'r diwydiant cyn gynted ag y bo modd;
- Gweithio ym mhob rhan o'r diwydiant er mwyn lleihau effeithiau ar yr amgylchedd gan ddal i ganolbwyntio ar fod yn gystadleuol;
- Blaenoriaethu'r sector cig coch er mwyn datblygu sgiliau a chynyddu'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth a thechnolegau newydd;
- Dylai Datblygu Cynnyrch fod yn rhan annatod o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Diwydiant Cig Coch Cymru;
- Mae angen rhoi pwyslais ar gynyddu gwerthiant y Farchnad Gartref a'r Farchnad Allforio;

- Dylai swyddogion Llywodraeth Cymru gefnogi a helpu i ddatblygu mwy o dryloywder mewn cadwyni cyflenwi ar ffermydd a'r tu hwnt i gât y fferm;
- Hyrwyddo a chefnogi Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig cynnyrch Cymreig;
- Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi datblygu marchnadoedd da byw lleol a lladd-dai lleol er mwyn sicrhau cadwyni cyflenwi cryf i fanwerthwyr annibynnol bach;
- Sicrhau bod mwy o gymorth amaeth-amgylcheddol ar gael ar gyfer pob ardal rhostir caeedig yn unig;
- Ailystyried y systemau stocio presennol yn yr ucheldir er mwyn mynd i'r afael â mater tanbori drwy gyflwyno cyfraddau stocio isaf;
- Cymell systemau pori cymysg;
- Cefnogi mesurau i fynd i'r afael â rhedyn sy'n ymledu yn yr ucheldir;
- Ystyried cynnwys cynlluniau taliadau am wasanaethau ecosystemau (TWE) lleol yn y Rhaglen Datblygu Gwledig, LEADER a rhaglenni sy'n cael eu harwain gan y gymuned;
- Hwyluso prosiectau newydd mewn sefyllfaoedd yn yr ucheldir a'r iseldir er mwyn dangos y llyfr achosion 'prawf o gysyniad' ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol;
- Dylai Llywodraeth Cymru gynnal astudiaeth er mwyn nodi capasiti presennol y seilwaith ynni yn ucheldir Cymru;
- Creu cynllun mentora er mwyn datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy ar fferm / cymunedol, yn cael eu darparu drwy'r model 'Cyswllt Ffermio';
- Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu pecyn o gymorth hwyluso i roi cyngor i ffermwyr ynglŷn ag effeithlonrwydd ynni a mynd i'r afael â materion effeithlonrwydd ynni drwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig yn ogystal â chynnig cymhelliant ariannol i newid systemau aneffeithlon;
- Cefnogi buddsoddiad cyfalaf micro ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy ar ffermydd;

- Cynnig ehangach i Newydd-ddyfodiaid Ifanc yn y Rhaglen Datblygu Gwledig nesaf a fydd yn cynnwys pecyn cychwyn;
- Dylai Llywodraeth Cymru ystyried dewisiadau polisi a fyddai'n helpu i gynyddu symudedd yn y sector, gan gynnwys (os yw'n briodol) cymorth hwyluso drwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig;
- Mae angen i'r Rhaglen Datblygu Gwledig nesaf ar gyfer Cymru ganolbwyntio ar faterion economaidd ac mae angen i'w nodau a'i hamcanion anelu at newid parhaol yn hyfywedd amaethyddiaeth a sicrhau datblygiad cynaliadwy diwydiant bwyd Cymru;
- Dylai trydydd parti arbenigol fod yn craffu ar y rhaglen ehangach ar gyfer moderneiddio amaethyddiaeth ac yn darparu cyngor a chefnogaeth;
- Dylai cyfran sylweddol o'r arian Colofn 2 gael ei chlustnodi (yn feddal) ar gyfer Rhaglen Amaethyddiaeth Gynaliadwy â blaenoriaeth i'r ucheldir a newydd-ddyfodiaid / pobl ifanc sy'n ymuno â'r diwydiant;
- Datblygu cynllun gweithredu i fonitro cynnydd yr argymhellion sy'n cael eu hamlinellu yn yr adroddiad hwn.

Y Diweddaraf am Gam I

Pwysigrwydd Ffermio'r Ucheldir yng Nghymru

Mae'r rhan fwyaf o'r tir sy'n cael ei ffermio yng Nghymru wedi'i ddosbarthu fel Ucheldir ac mae rheoli busnesau mewn ardaloedd o'r fath yn dipyn o her i ffermwyr. Mae daearyddiaeth a hinsawdd yr ardal yn golygu mai ffermio da byw yw un o'r ychydig ddewisiadau yno, os nad yr unig ddewis. Er mai da byw yn aml iawn yw'r unig ddewis o safbwynt ffermio, nid yw hyn yn lleihau pwysigrwydd yr ucheldir o ran darparu cynnyrch amaethyddol a nwyddau amgylcheddol. Mae gan fusnesau'r ucheldir ran hollbwysig i'w chwarae hefyd yn strwythur y diwydiant defaid yng Nghymru; heb stoc yr ucheldir byddai'r diwydiant defaid cyffredinol yn wannach. Dangosodd gwaith cychwynnol a wnaethpwyd gan Fforwm yr Ucheldir ac a gadarnhawyd gan ADAS fod ffermydd yr ucheldir dan anfantais ariannol oherwydd y rhwystrau naturiol y mae'n rhaid iddynt eu goresgyn er mwyn cynhyrchu cynnyrch amaethyddol. At ddibenion yr adolygiad hwn rwyf wedi defnyddio ffigurau eidion a defaid, fel bod modd cymharu ffigurau â ffigurau tebyg.

Cafodd y tywydd garw ym mis Mawrth 2013 effaith fawr iawn mewn rhai rhannau o Gymru (tua 3,000 o ffermydd) – gweler Atodiad 2. Mae'r map yn dangos yr ardaloedd a gafodd eu heffeithio gan eira a achosodd galedi mawr i ffermwyr ac a arweiniodd at y cwestiynau dilynol ynglŷn â chryfder amaethyddiaeth yng Nghymru, yn enwedig yn yr ucheldir. Daeth y tywydd eithafol ar ddiwedd cyfnod hir o dywydd gwael iawn ac arweiniodd hynny, ynghyd â chynnydd yng nghost bwydydd anifeiliaid a gostyngiad ym mhreis y farchnad am rai cynnyrch da byw, at bryder cyffredinol yng Nghymru ac mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Er mwyn llunio fy nghasgliadau, derbyniais dystiolaeth gan Lywodraeth Cymru a chyrff eraill oedd â diddordeb. Fy mwriad oedd nodi gwersi y gellid eu dysgu er mwyn datblygu ymateb Llywodraeth Cymru i argyfyngau megis tywydd eithafol.

Roedd y prif argymhellion yn fy llythyr dyddiedig 15 Gorffennaf 2013 (Atodiad 4) yn nodi'r glasbrint ar gyfer datblygu'r arferion gorau a chydweithio â'r diwydiant ffermio a gwasanaethau cysylltiedig.

Hyd yn hyn, mae fersiwn drafft o Gynllun Ymdrin â Hapddigwyddiadau wedi cael ei ddatblygu, ac mae rhwydwaith gwybodaeth lleol wedi cael ei nodi er mwyn sicrhau bod modd rhoi gwybod am ddigwyddiadau lleol cyn gynted ag y bo modd.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi nodi uwch swyddogion a phrotocolau perthnasol i roi trefniadau ymateb ar frys ar waith os bydd angen. (Mae hyn yn ychwanegol at y trefniadau sefydlog sy'n bodoli'n barod ar gyfer ymateb i argyfwng ar raddfa fawr).

Edrychwyd ar y posibilrwydd o yswiriant argyfwng, ond gan nad oedd digon o dystiolaeth fesuradwy ar gyfer asesu sut mae digwyddiad yn amlygu'i hun a /neu beth yw gwir werth y digwyddiad, nid oedd y darparwyr yswiriant posibl y cysylltwyd â hwy'n teimlo eu bod mewn sefyllfa i ddatblygu cynnyrch busnes hyfyw. Roedd amserlen fy adolygiad i'n dynn ac nid oedd digon o amser ar gyfer gwaith o'r fath, ond mae'n bosibl y gellid gwneud rhagor o ymchwil i edrych yn fanylach ar y gwahanol ddulliau o reoli risg yn effeithiol ym myd amaeth.

Argymhelliad

- **Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil i edrych ar ddulliau effeithiol eraill o reoli risg ym myd amaeth. Dylid gwneud hyn mewn partneriaeth â rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig sydd â diddordeb mewn risg yn y diwydiant amaethyddol.**

Roedd cael gwared ar gyrff anifeiliaid a oedd wedi marw yn fuan ac yn effeithiol yn fater a oedd yn peri pryder yn ystod y tywydd garw, ac er bod pawb yn gwneud ei orau roedd dystiolaeth o oedi hir, a hynny'n achosi straen emosiynol i deuluoedd sy'n ffermio. Mae gwaith cychwynnol gan Brifysgol Bangor, Hybu Cig Cymru (HCC) a Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymchwilio i ddulliau eraill posibl o ymdrin â stoc trig. Mae angen parhau â'r gwaith hwn nes gellir cytuno ar ateb.

Argymhellion

- **Derbyn y Cynllun Ymdrin â Hapddigwyddiadau arfaethedig;**
- **Datblygu Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru ar gyfer y dyfodol fel bod modd rhoi'r Erthyglau perthnasol ar waith ar unwaith os bydd angen yn ystod cyfnod y rhaglen nesaf yn hytrach na gorfod gofyn i'r Comisiwn Ewropeaidd am addasiadau a all achosi oedi maith;**

- Dylai ffrydiau polisi perthnasol Llywodraeth Cymru ystyried cynnwys mecanweithiau i helpu'r diwydiant i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd a thywydd garw yn y dyfodol;
- Dylai Llywodraeth Cymru ddal i weithio gyda Phrifysgol Bangor, HCC a'r Comisiwn Ewropeaidd er mwyn ymchwilio i ffyrdd eraill o gael gwared ar stoc trig ar ffermydd.

Gan edrych ymlaen at gyfnod rhaglennu nesaf Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, mae nifer o Erthyglau yn y Rheoliadau Ewropeaidd drafft ar gyfer Datblygu Gwledig y dylid eu hystyried wrth ddrafftio Rhaglen Datblygu Gwledig ar gyfer Cymru yn y dyfodol. Mae Erthygl 19 o'r EAFRD, "*Restoring agricultural production potential damaged by natural disasters and catastrophic events and introduction of appropriate prevention actions*", yn caniatáu i'r Awdurdodau Rheoli lunio cynlluniau i amddiffyn cynhyrchwyr rhag colledion o ganlyniad i drychinebau naturiol a digwyddiadau trychinebus. Gallai hyn fod yn gyfle i Lywodraeth Cymru ddatblygu cynlluniau, drwy Cyswllt Ffermio o bosibl, i helpu ffermwyr i geisio lleihau effaith digwyddiad, ac unwaith eto mae'n ymddangos y byddai'n werth ymchwilio i ddadansoddiadau manwl eraill o ddewisiadau o'r fath.

Dylid nodi nad yw'r erthygl hon yn cynnig iawndal am wir golledion mewn incwm, a'i bod yn bosibl na fyddai'r tywydd gwael a gafwyd ym mis Mawrth 2013 yn cael ei ystyried yn ddigon drwg ar lefel yr Undeb Ewropeaidd i gael ei ystyried yn 'drychineb naturiol' neu 'ddigwyddiad trychinebus'.

Ar adeg ysgrifennu hyn, mae angen i swyddogion Llywodraeth Cymru gael eglurhad pellach ynglŷn â beth sy'n cael ei ystyried yn *drychineb naturiol* a *digwyddiad trychinebus* gan y Comisiwn Ewropeaidd. Os oes gan Lywodraeth Cymru, fel yr awdurdod cymwys, bŵer i benderfynu beth yw'r diffiniad, mae angen ystyried y mater ar sail y profiadau a gafwyd. Gan fod y fersiwn drafft o'r Cynllun Ymdrin â Hapddigwyddiadau wedi cael ei baratoi, mae gan Lywodraeth Cymru fecanwaith i asesu a nodi a oes *trychineb naturiol* a/neu *ddigwyddiad trychinebus* wedi digwydd a chymryd camau priodol.

Argymhellion

- **Dylai swyddogion Llywodraeth Cymru ofyn am eglurhad gan y Comisiwn Ewropeaidd ynglŷn â beth yw trychineb naturiol a digwyddiad trychinebus yn nhermau'r rheoliadau.**

Cam II

Yn ail gam yr adolygiad, rwyf wedi canolbwyntio'n bennaf ar berfformiad economaidd amaethyddiaeth Cymru. Cylch gorchwyl yr ail gam oedd:

- Cynnal Dadansoddiad Ariannol o ffermio yng Nghymru gan ganolbwyntio'n benodol ar yr ucheldir;
- Nodi Cryfderau a Gwendidau modelau busnes ffermio presennol Cymru;
- Nodi mecanweithiau a allai wella sefydlogrwydd ariannol ffermydd Cymru, yn enwedig ffermydd yr ucheldir; a
- Gwneud argymhellion ar gyfer Cynllun Datblygu Gwledig Cymru yn y dyfodol er mwyn gwneud y Diwydiant Ffermio a chadwyni cyflenwi cysylltiedig yn fwy cystadleuol.

Dull

Gan fod amaethyddiaeth yn cyflawni cynifer o wahanol amcanion ac yn darparu cynifer o nwyddau cyhoeddus, mae'n fwyfwy pwysig bod unrhyw gymorth a roddir yn cael ei dargedu'n briodol. Wrth lunio fy marn ynglŷn â'r ffordd ymlaen, rwyf wedi gwneud ymchwil desg i'r diwydiant amaethyddol a chadwyni cyflenwi cysylltiedig. Rwyf hefyd wedi cynnal cyfweiliadau trylwyr gyda'r diwydiant ffermio, y diwydiannau perthynol, cyrff anllywodraethol, a swyddogion y Llywodraeth, y sector cyllid, sefydliadau ymchwil a'r Cyrff Ardollau perthnasol.

Cyd-destun

Efallai y byddai'n werth rhoi rhywfaint o gyd-destun economaidd cyffredinol y sector amaethyddol yng Nghymru cyn mynd ymhellach. Mae'r ffigurau diweddaraf (Llywodraeth Cymru, 2013) yn dangos bod cynnyrch gros y sector amaethyddol yng Nghymru yn £1,387.8 miliwn yn 2012 (ychydig yn llai nag yn 2011, ond yn fwy nag yn 2010). Roedd yn deillio'n bennaf o laeth a chynnyrch llaeth, gwartheg a defaid –

73 y cant o'r cynnyrch gros – ac amcangyfrifir bod y gwerth ychwanegol crynswth yn £214.4 miliwn yn 2012.

Ar sail ystadegau gwerth ychwanegol crynswth y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer 2011, sy'n galluogi cymhariaeth briodol o'r gyfran o'r gwerth ychwanegol crynswth y gellir ei phriodoli i amaethyddiaeth (er ei bod wedi'i chyfuno â choedwigaeth a physgota), roedd y gyfran o'r gwerth ychwanegol crynswth o amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota yng Nghymru yn 0.56 y cant. Dros gyfnod ychydig yn hwy, er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i weld yn ddiweddar yn y gyfran o'r gwerth ychwanegol crynswth y gellir ei phriodoli i amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota ers canol degawd cyntaf yr unfed ganrif ar hugain nid yw'r gyfran hon wedi codi'n uwch nag 1 y cant o gyfanswm y gwerth ychwanegol crynswth. Amcangyfrifir bod cadwyn gyflenwi bwyd Cymru'n werth £17.3 biliwn i'r economi, a'i bod yn cynnal 170,000 o swyddi. Mae twristiaeth yn sector pwysig sy'n uniongyrchol berthnasol i amaethyddiaeth a chymunedau gwledig yr ucheldir.

Fodd bynnag, mae rhai ardaloedd yng Nghymru lle mae'r cyfraniad ychydig yn uwch - tua 2.9 y cant o gyfanswm y gwerth ychwanegol crynswth ym Mhowys a 2.0 y cant yn Ne-orllewin Cymru ar sail y ffigurau diweddaraf.

Roedd cyfanswm y gweithwyr a oedd yn cael eu cyflogi ar ddaliadau yn 2011 yn 58,400, sy'n gynnydd o 3.5 y cant er 2001. Fodd bynnag, mae cyflogaeth amser llawn wedi gostwng bron i 13 y cant i 19,900 yn yr un cyfnod.

Efallai nad yw'r dystiolaeth ar gyfer effeithiau economaidd ehangach amaethyddiaeth, ar lefelau mwy cyfanredol o leiaf, mor glir ag sy'n cael ei awgrymu'n aml, ond mae barn gadarnhaol weddol gyffredin ynglŷn â rôl amaethyddiaeth yng ngwead cymdeithasol a diwylliannol ehangach rhai rhannau gwledig o Gymru. Mae hyn yn cael ei ddiffinio'n glir yn "Cherished Uplands of Wales" (Peter Midmore, 2005) ac yn fwy diweddar mewn adroddiad yn dwyn y teitl "Datgloi Potensial yr Ucheldir" a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2012 (Fforwm Ucheldir Cymru, 2012).

Cryfderau a Gwendidau modelau busnes ffermio presennol Cymru

Mae topograffeg Cymru, ei hinsawdd a'r mathau o briddoedd sydd yma yn golygu mai glaswellt yw'r prif gnwd, felly mae amaethyddiaeth wedi'i gyfyngu i gynhyrchu da byw drwy systemau llai dwys yn bennaf. Mae hyn yn arbennig o wir yn yr ucheldir lle mae'r rhan fwyaf o'r systemau ffermio'n systemau eidion a defaid llai dwys a lled ddwys. Mae llai o gyfleoedd i arallgyfeirio oddi wrth y systemau hyn yn yr ucheldir, o'i gymharu â ffermydd yr iseldir, felly mae incwm busnesau fferm yr ucheldir yn dal i ddibynnu mwy ar gymorth gan y Llywodraeth.

Yn dilyn y broses o ymgynghori'n helaeth â rhanddeiliaid gwnaethpwyd dadansoddiad o'r cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau er mwyn canfod y ffactorau a oedd yn cyfyngu ar allu'r modelau busnes yn ogystal â'r cyfleoedd i gael sail gryfach i fusnesau.

Cryfderau	Gwendidau
- Ffermydd Teuluol sy'n aml iawn â sylfaen asedau gref - Sgiliau hwsmonaeth da - Hinsawdd dda i dyfu glaswellt ar dir isel - Adnoddau naturiol da â digonedd o ddŵr, priddoedd llawn carbon a glaswelltir cynhyrchiol iawn yn yr ucheldir - Brandiau cryf ar gyfer Cig Oen a Chig Eidion o Gymru - Systemau pori glaswellt llai dwys yn yr ucheldir - Systemau cynhyrchu llai dwys sy'n gydnaws â gofynion amgylcheddol yn yr ucheldir - Safonau lles anifeiliaid da - Amrywiaeth o fridiau a	- Y math o bridd yn cyfyngu'r gallu i dyfu cnydau â'r ardaloedd penodol - Prinder cyfleoedd i arallgyfeirio yn yr ucheldir - Dibyniaeth ar gymorth cyhoeddus yn yr ucheldir 80% o'r arwynebedd amaethyddol a ddefnyddir yn Ardaloedd Llai Ffatriol - Y gweithlu'n heneiddio - Lefelau ailfuddsoddi'n isel - Y cynhyrchwr heb lawer o ddylanwad yn y gadwyn gyflenwi

systemau cynhyrchu i fodloni gwahanol ofynion o ran y galw am gynnyrch i'r farchnad gartref a'r farchnad allforio • Y gallu i rannu marchnadoedd yn segmentau ac i nodi cyfleoedd marchnad arbenigol • Galw cryf yn y farchnad am gig coch – Cig Eidion a Chig Oen â statws PGI	• Diffyg cydweithrediad rhwng cynhyrchwyr • Dim llawer o ddefnydd o ddatblygiadau technolegol mewn meysydd fel geneteg anifeiliaid a phlanhigion yn enwedig yn yr ucheldir • Prinder sgiliau arwain a rheoli yn y diwydiant yn gyffredinol • Diffyg cynllunio ar gyfer olyniaeth gyda rhai ffermwyr yn methu neu'n amharod i ymddeol neu drosglwyddo perchnogaeth • Prinder sgiliau ariannol / sgiliau busnes yn enwedig yn y sector defaid • Cost ychwanegol mewnbynnau o ganlyniad i gyfyngiadau naturiol yr ucheldir, o ran mewnbynnau amaethyddol a seilwaith.
Cyfleoedd	Bygythiadau
• Manteisio ar yr angen i fynd i'r afael â materion diogelu'r cyflenwad bwyd a thanwydd • Arallgyfeirio i dechnolegau ynni adnewyddadwy • Manteisio ar y galw am	• Tanbori neu bosibilrwydd hyd yn oed y bydd tir yn yr ucheldir yn cael ei adael • Perygl y bydd heintiau a chlefydau'n effeithio ar anifeiliaid a phlanhigion

gynnyrch lleol gan gwsmeriaid • Manteisio ar y galw byd-eang am fwyd o ganlyniad i gynnydd yn y boblogaeth • Datblygu marchnadoedd ar gyfer cynydau newydd a gwahanol • Datblygu cyfleoedd ar gyfer twristiaeth ar fferm • Cyfle i sicrhau mwy o gydweithrediad rhwng cynhyrchwyr • Cyfle i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar ddatblygiadau technolegol • Cyfle i wella sgiliau marchnata • Datblygu dull integredig o gynorthwyo ffermwyr i ddatblygu eu busnes • Llawer o sgiliau pwysig sy'n gysylltiedig â'r tir	• Baich rheoliadau • Newid yn yr hinsawdd • Cynnydd yn nifer yr achosion o dywydd eithafol, llifogydd / eira • Costau cynhyrchu'n cynyddu • Yr hyder i fuddsoddi'n cael ei danseilio gan y posibilrwydd o elw bach iawn neu ddim elw o gwbl • Llai o gymorth gan y Llywodraeth • Pwysau ar ddefnydd tir • Y dirywiad economaidd yn dal i gael effaith ar y galw am fwyd • Costau cynhyrchu'n amrywio'n fawr • Penderfyniadau llywodraethau eraill y DU ynglŷn â'r PAC yn golygu ei bod yn anos i ffermwyr gystadlu • Delwedd ffermio • Dim "naws am le" wedi'i gysylltu â'r ucheldir yng Nghymru
--	---

Dadansoddiad Ariannol

Roedd cyfraniad uniongyrchol Amaethyddiaeth i Werth Ychwanegol Crynswth Cymru yn 0.56% y cant yn 2011, ond fel y nodwyd yn gynharach, gellid dweud bod amaethyddiaeth yn bwysig i les economaidd, cymdeithasol a diwylliannol ehangach Cymru. Mae'n anodd bod yn fanwl gywir, ond roedd trosiant amaethyddiaeth bron yn £1.4 biliwn (Llywodraeth Cymru, 2013). Mewn termau real (ar sail prisiau 2012-13) gostyngodd incwm busnes fferm cyfartalog yng Nghymru 32 y cant ar gyfer Pob Math o Fferm rhwng 2011-12 a 2012-13, â gostyngiad o 35 y cant ar gyfer ffermydd Godro a 36 y cant ar gyfer ffermydd Gwartheg a Defaid (ALFf), 34 y cant a 41 y cant, yn y drefn honno, ar gyfer ffermydd Gwartheg a Defaid Ardal dan Anfantaïs Fawr a ffermydd Gwartheg a Defaid Ardal dan Anfantaïs, a gostyngiad o tua 20 y cant ar gyfer ffermydd Gwartheg a Defaid (Iseldir).

Yng Nghymru mae'r taliad sengl cyfartalog o gwmpas £15,000 (Rural Payments Wales, 2013). Dangosodd trafodaethau gyda rhanddeiliaid fod ffermwyr defaid yr ucheldir yn dibynnu llawer iawn ar y taliad hwn, ond roedd y sector llaeth o'r farn ei fod yn bwysig yn y tymor byr ond yn mynd yn llai pwysig wrth iddynt fynd yn eu blaenau.

Mae'r taliad sengl yn dal yn gyfran sylweddol o incwm rhai busnesau fferm yn yr ucheldir. Gallai hyn wneud ffermydd yr ucheldir yn wannach gan fod y taliad sengl yn cael ei ddylanwadu gan ffactorau allanol megis newidiadau i'r gyfradd gyfnewid a newidiadau ym mholisiâu Ewrop (Prifysgol Aberystwyth, 2013), sy'n gwneud y diwydiant yn agored i niwed yn sgil ansicrwydd gwleidyddol.

Er mwyn lleihau'r effeithiau hyn, mae'n hanfodol bod gan ddiwydiant amaethyddol Cymru gadwyn gyflenwi sy'n gweithio'n iawn yng nghyd-destun y Deyrnas Unedig; fodd bynnag, â chymaint o sôn am chwyddiant mewn prisiau bwyd, nid prisiau uwch yw'r ateb o reidrwydd, ond canolbwyntio ar wella effeithlonrwydd systemau cynhyrchu a chynyddu gwerthiant cynnyrch gwerth ychwanegol.

Er bod y tueddiadau'n dangos cynnydd cyffredinol yn incwm cyfartalog ffermydd ym mhob sector er 2007, â gostyngiad bach yn 2010 a gafodd ei adennill yn 2011, mae gaeafau gwael dilynol 2012 a 2013 a'r colledion cysylltiedig o ran stoc a chnydau, a'r

costau ychwanegol a gafwyd o ganlyniad i hynny, yn ogystal â cholli'r cynllun Tir Mynydd wedi golygu bod y diwydiant ffermio wedi gweld gostyngiad sylweddol mewn incwm ffermydd. Dangosodd ffigyrau Allbwn ac Incwm Amaethyddol Cyfun 2012 a ryddhawyd ar 28 Chwefror 2013 fod Cyfanswm Incwm o Ffermio yng Nghymru wedi gostwng 48%. Mae nifer o ffactorau wedi dylanwadu ar y canlyniad hwn, ond un ffactor sylweddol oedd y cynnydd o 17% ym mhris dwysfwd, y mewnbwn â'r gost fwyaf o hyd ar gyfer cynhyrchu, sy'n gyfrifol am 34% o gyfanswm costau'r mewnbynnau.

Disgwylir rhywfaint o amrywiadau mewn mesuryddion incwm fferm oherwydd dylanwad ffactorau allanol y farchnad. Fodd bynnag, mae'r cynnydd yng nghostau'r mewnbynnau wedi mynd yn fwy na thuedd y cynnydd mewn incwm.

Deallaf fod y ffigurau incwm fferm sydd wedi cael eu cyhoeddi'n cael eu cyflwyno ar sail cyfartaledd, a dylid nodi y gallai'r data ar gyfer ffermydd unigol fod yn wahanol iawn, gyda ffactorau ar y ffermydd eu hunain yn dylanwadu ar amrywiadau mewn cynhyrchiant a chostau.

Byddai hyn yn berthnasol iawn i'r tair mil o ffermydd gafodd eu heffeithio yn ystod Mawrth ac Ebrill 2013. Mae ffigurau benthycu ffermydd ar gyfer y cyfnod o fis Mawrth i fis Tachwedd 2013 yn dangos cynnydd cyffredinol ym mhob sector. Cadarnhaodd trafodaethau gyda'r prif fanciau clirio a rhanddeiliaid fod hyn i ddechrau, yn y tymor byr, er mwyn ymestyn gorddrafftiau a chynyddu cyfleusterau benthycu (Banc Lloegr, 2013).

Ni ellir anwybyddu cyfyngiadau naturiol yr ucheldir. Dangosodd gwaith a gwblhawyd gan Fforwm yr Ucheldir fod busnesau eidion a defaid wedi wynebu costau ychwanegol o'u cymharu â ffermydd yr iseldir. Gellid priodoli'r costau hyn i gostau amrywiol bwydydd, gan gynnwys dwysfwd, porthiant a phrynu porthiant.

Mae'r Arolwg o Fusnesau Fferm hefyd yn dangos amrywiad eang o ran perfformiad ffisegol ac ariannol ar draws holl ffermydd Cymru (Arsyllfa Wledig Cymru, 2013).

Mae amrywiad sylweddol o'r fath i'w weld yn gyson drwy'r blynnyddoedd. Yn ddelfrydol, dylai pob fferm anelu tuag at berfformiad fel sydd gan y busnesau sydd yn y traean uchaf o ran perfformiad. Byddai hyn yn bosibl mewn amgylchedd a reolir ar lawr ffatri, ond nid yw'n bosibl yng nghyd-destun ffermio, oherwydd amrywiadau naturiol sydd y tu hwnt i reolaeth y ffermwr e.e. a yw'r fferm yn wynebu'r gogledd

ynteu'n wynebu'r de, a pha fath o bridd sydd yno. Bydd y ffactorau hyn i gyd yn effeithio ar berfformiad ariannol. Er hyn, mae angen llawer o welliannau o hyd.

Mae adroddiad Arsyllfa Wledig Cymru a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i ddarparu dadansoddiad o incwm ffermydd yng Nghymru fel rhan o'r adolygiad o'r PAC wedi cadarnhau'r hyn a glywais gan randdeiliaid (Arsyllfa Wledig Cymru, 2013).

Roedd y gwaith ymchwil hwn yn rhan o brosiect mwy, a oedd yn cynnwys nifer o gamau, er mwyn canfod sut y bydd y diwygiadau i'r PAC yn effeithio ar gefn gwlad Cymru. Dylid cydnabod mai gwaith ymchwil craidd yn unig yw'r data ond mae'n tynnu sylw at rai ffactorau pwysig. Cynhaliwyd yr Arolwg ar 2,402 o ffermydd mewn gwahanol rannau o Gymru, gan ddefnyddio tair ardal ddaearyddol wahanol; gweler (Ffig 1 a Ffig 2). Roedd yr ardaloedd hyn yn cynnwys ardal yn y de-orllewin lle ceir ffermydd godro'n bennaf, ardal fynyddig yn y gogledd-orllewin ac fel cymharydd, ardal gymysg yn y canolbarth. Daethpwyd i'r casgliad bod diwygiadau i'r PAC yn gyffredinol yn debygol o gael effaith ar incwm ffermydd.

Ffig 1 Math o Fferm yn seiliedig ar ddosbarthiadau Llywodraeth Cymru

Math o Fferm	Nifer y cyfweiliadau	% o'r Arolwg
Eidion	448	19%
Godro	190	8%
Defaid	723	30%
Defaid/Eidion	413	17%
Arall/Cymysg	628	26%
Cyfanswm	2402	100%

Ffig 2 Rhanbarth amaethyddol (yn seiliedig ar ddosbarthiadau Llywodraeth Cymru)

Rhanbarth amaethyddol	Nifer y cyfweiliadau	% o gyfanswm yr arolwg
Caerfyrddin	391	16%
Ceredigion	257	10%
Y Gogledd-ddwyrain	344	14%
Y Gogledd-orllewin	341	14%

Sir Benfro	212	9%
Powys	479	20%
De Cymru	378	16%
Cyfanswm	2402	100%

Ffig 3 Elw a cholled yn ôl teipoleg ffermydd

Canlyniad (cyfrif)	Cyffredinol (2402)	Mawr - Llaeth (163)	Mawr - Defaid a Gwartheg (84)	Mawr - Eraill (190)	Bach - Defaid (297)	Bach - Eraill (610)	Bach lawn (1058)
Elw	46%	81%	49%	61%	53%	49%	36%
Colled	29%	7%	32%	19%	30%	28%	34%
Adennill costau	20%	10%	17%	17%	14%	21%	23%
Gwrthod & Ddim yn Gwybod	5%	2%	3%		3%	2%	7%
Cyfanswm	100%	100%	100%		100%	100%	100%

Mae Ffigur 3 yn dangos bod ffermydd laeth mawr mewn sefyllfa lawer cryfach o'u cymharu â mathau eraill o ffermydd. Mae laeth yn nwydd ac oherwydd natur y marchnadoedd a'r gadwyn gyflenwi byddai'n deg dod i'r casgliad bod ffermwyr laeth yn canolbwyntio mwy ar y farchnad a bod ganddynt fwy o ymwybyddiaeth o gynllunio ariannol a chynllunio busnes na sectorau eraill. Roedd y taliad sengl yn elfen resymol o'r elw a ddangoswyd ond nid oedd mor bwysig yn y ffermydd laeth mawr gan eu bod yn dibynnu llai ar daliadau Colofn I (Arsyllfa Wledig Cymru, 2013).

Ffig 4 – Elw Busnes Fferm fesul Fferm heb gynnwys cymorthdaliadau (Arolwg o Fusnesau Fferm 2010-11)

Math o Fferm	Elw ar ôl rhent a chostau cyllid £ y Fferm	Taliad Sengl £ y Fferm	Tir Mynydd £ y Fferm	Cymorthdaliadau Anuniongyrchol £ y Fferm	Elw heb gynnwys Cymorthdaliadau £ y Fferm
Mynydd - Gwartheg a Defaid	32,242	34,854	4,293	5,482	-12,387

Mynydd - Defaid	33,183	33,777	5,635	7,171	-13,400
Ucheldir – Gwartheg a Defaid	30,176	29,597	2,560	2,910	- 4,891
Iseldir – Gwartheg a Defaid	25,880	23,191	0	2,190	499
Mynydd ac Ucheldir – Llaeth	57,175	28,103	0	3,259	25,813
Iseldir – Llaeth	72,342	33,578	0	2,526	36,238

(Arsyllfa Wledig Cymru, 2013)

Mae Ffig 4 yn dangos yn glir iawn bod gan ffermydd mynydd sy'n cadw gwartheg a defaid incwm negyddol heb gynnwys y taliad sengl a chymorthdaliadau eraill.

Ffermydd llaeth oedd yn dangos yr elw mwyaf ac mae data'r Arolwg o Fusnesau Fferm yn dangos mai ffermydd llaeth yw'r unig sector sydd wedi gwneud elw o gynhyrchu yn unig yn ddiweddar. Mae'n rhesymol dod i'r casgliad bod y sector llaeth ar hyn o bryd mewn gwell sefyllfa ariannol i addasu i newid na'r sector eidion a defaid. Mae'r cynnydd ym mhrisiau llaeth yn ddiweddar yn cael ei groesawu a dylai hyn hefyd gadarnhau'r farn hon.

Rwy'n pwysleisio yma nad yw'n fwriad gennyf gyfyngu cymorth i fusnesau eidion a defaid yn unig. Mae ar sector amaeth Cymru yn ei gyfanrwydd angen cymorth i wella, arloesi a symud ymlaen, ond bydd maint yr ymyriad a'r math o ymyriad yn wahanol. Mae Tasglu Llaeth Cymru, er enghraifft, wedi cadarnhau eu bod yn dymuno i gymorth i'r diwydiant llaeth roi mwy o bwyslais ar arbedion effeithlonrwydd, cydweithio a gwelliannau technegol ar ffermydd.

Os yw busnesau fferm am gael eu hystyried yn wirioneddol gryf a gwydn, dylent allu adennill eu costau cyn derbyn unrhyw gymorthdaliadau. Er mwyn gwneud hyn, byddai angen cynnydd o dros 30 y cant mewn incwm gwerthiant, neu ostyngiad tebyg yn y costau neu gyfuniad o'r ddau. Mae'n bosib y gellid llenwi'r bwlch hwn mewn incwm, ond bydd hynny'n cymryd llawer o amser a dylai'r diwydiant bennu hyn

fel ei brif darged. Ar ôl gwneud hyn bydd modd ailfuddsoddi'r taliad sengl mewn arbedion effeithlonrwydd eraill a buddsoddi ar gyfer y dyfodol.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar gyfanswm yr incwm o ffermio ac nid yw'n ystyried unrhyw weithgaredd arallgyfeirio oddi ar y fferm. Yn ôl 'Statistical Bulletin 2012 – Farm Diversification in Wales' (Llywodraeth Cymru, 2012) roedd tua 10% o ffermydd Cymru'n cynhyrchu allbwn o weithgareddau wedi eu harallgyfeirio.

Amcangyfrifir bod hyn yn werth £19 miliwn ar hyn o bryd (1% o allbwn busnesau fferm yn 2011-2012).

Os yw ffermydd am fod yn gryfach, bydd angen ceisio creu ffrydiau incwm ehangach hefyd. Ar hyn o bryd, nid yw enillion ffermydd, ar wahân i ffermydd yn y sector llaeth, yn dangos yr hyfywedd sy'n eu galluogi i archwilio'r cyfleoedd hyn.

Dylai'r Rhaglen Datblygu Gwledig nesaf roi blaenoriaeth i ffermydd eidion a defaid yr ucheldir a chefnogi gweithgaredd cychwyn busnes ar gyfer gweithgareddau arallgyfeirio.

Argymhelliad

- **Dylai ffermydd Eidion a Defaid yr Ucheldir fod yn sector blaenoriaeth wrth annog arallgyfeirio i fusnesau anamaethyddol a rhoi cymorth i gychwyn busnes.**

Diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC)

Roedd fy nghyfweliadau'n digwydd yr un pryd â'r broses ymgynghori helaeth ar Golofn 1 y PAC. Er nad oedd fy adolygiad yn canolbwyntio ar hyn, roedd yn ddiddorol clywed barn y rhanddeiliaid am yr ystyriaethau polisi amrywiol. Amlygodd y trafodaethau cychwynnol â rhanddeiliaid nifer o bryderon ac roedd diwygio'r PAC yn bwnc trafod cyffredin iawn.

Mae newid y taliadau hanesyddol i fod yn daliadau sy'n seiliedig ar arwynebedd yn siŵr o arwain at gyfnod o addasiadau ariannol i'r busnesau unigol dan sylw. Roedd y penderfyniad i gael system daliadau sy'n amharu cyn lleied ag sy'n bosibl yn cael ei groesawu'n gyffredinol gan y diwydiant, ond nid oedd barn bendant a ddylai fod yn gynllun taliadau dwy ynteu dair haen.

Y pryder mwyaf oedd y bwriad i gyflwyno'r llinell Rhostiroedd. Mae'r maen prawf uchder a gafodd ei gynnwys yn ddiweddar yn cael ei groesawu, ond rwy'n bryderus ynglŷn â'r 58,000 ha o dir amaeth caeedig a oedd wedi'i ddosbarthu cynt fel Ardal dan Anfantais Fawr ac sydd bellach yn cymhwyso fel Rhostir at ddibenion taliadau'r PAC. Mae'r map Rhostir diweddaraf i'w weld yn Atodiad 5.

Mae'r Arolwg o Amaethyddiaeth a Defnydd Tir yng Nghymru a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2013 (Llywodraeth Cymru, 2013) yn dangos y 180,300 ha o dir agored fel tir pori garw ac mae'r 58,000 ha o dir caeedig yn cael ei nodi fel tir pori parhaol. Fel rhan o'r adolygiad, ymwelais â nifer o ffermydd a gwelais dros fy hun pa mor hanfodol yw'r tir hwn i gynhyrchiant cyffredinol unedau ffermio unigol.

Yn ystod fy nghyfweliad gyda'r ffermwyr, daeth yn amlwg y byddai'r incwm sylweddol yr hectar a gollid o ganlyniad i ailddosbarthu'r tir hwn yn golygu mewn gwirionedd y byddent yn ystyried cadw llai o stoc a pheidio â gwneud dim â'r tir hwnnw.

Efallai y byddai goblygiadau amgylcheddol hyn yn werthfawr ond mae tystiolaeth a gafwyd yn ddiweddar yn dangos nad datblygu ungnwd yw'r ffordd orau o reidrwydd o gynnal ecosystemau iach yn y dyfodol (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, 2011).

O safbwynt yr ucheldir, mae modelau ariannol y PAC wedi dangos mai'r sector defaid a ffermydd bach fydd yn cael y budd net mwyaf o daliad sy'n seiliedig ar

arwynebedd. Mae ffermydd bach yn ddiddorol. Mae data ariannol yn dangos mai dim ond 5% o gyfanswm allbwn amaethyddol ffermydd Cymru sy'n cael ei gynhyrchu gan ffermydd bach, a gellid dadlau bod sail resymegol gyffredinol dros gefnogi rhagor o resymoli yn y diwydiant, gan gynnwys cynyddu maint busnesau. Gellid dadlau fodd bynnag bod y ffermydd hyn yn dangos arloesedd a'u bod yn aml yn gyfranwyr pwysig i weithgaredd economaidd ehangach yng nghefn gwlad Cymru, ag 80% o bryniannau ffermydd bach yn cael eu gwneud o fewn 25 milltir o'r daliad (Arsyllfa Wledig Cymru, 2013).

Argymhellion

- **Trosglwyddo'r uchafswm o 15% o Golofn I i Golofn II;**
- **Y cyfnod trosglwyddo i'w gwblhau yn ystod cyfnod y Rhaglen Datblygu Gwledig nesaf.**

Canlyniadau dim ymyriad

Pe bai'r sefyllfa bresennol yn parhau, yr ymateb rhesymegol fyddai i rai ffermwyr gadw llai o anifeiliaid; yn wir, cadarnhaodd fy nhrafodaethau gyda ffermwyr a rhanddeiliaid bod rhai'n penderfynu gwneud hyn yn barod. Mae'n ddiddorol gweld bod ffermwyr yn ystyried gostwng lefelau stocio ond nad ydynt yn ystyried gadael y diwydiant. Mae'n rhy gynnar i ragweld gwir ganlyniad bwriadau'r ffermwyr o ganlyniad i ddiwygio'r PAC a byddwn yn argymhell gwneud dadansoddiad o effaith diwygio'r PAC yn 2015 tua hanner ffordd drwy'r rhaglen.


Argymhelliad

- **Cynnal adolygiad canol tymor o effaith diwygio Colofn I y Polisi Amaethyddol Cyffredin ar ddiwydiant amaethyddol Cymru er mwyn mesur effaith y polisi presennol ar arferion ffermio, gan roi pwyslais ar yr ucheldir.**

Gan fod yr ucheldir yn bwysig i weddill y diwydiant da byw yng Nghymru, ni fyddai lleihad sylweddol yn nifer y stoc yn ganlyniad dymunol i'r diwydiant amaethyddol nac i'r gymdeithas yn gyffredinol yng Nghymru.

O safbwynt cyflogaeth, mae canran cyflogaeth Cymru o'i chymharu â'r gwerth ychwanegol crynswth yn dal yn sylweddol. Bydd y rhan fwyaf o'r gyflogaeth hon yn ucheldir Cymru a gellid dadlau bod hyn yn ffactor pwysig er mwyn sicrhau lles ardaloedd gwledig mwy ymylol Cymru.

Ffig 5: Cyfraniad amaethyddiaeth i'r economi (Ffynhonnell: Defra)



Wrth gwrs, mae cynhyrchiant amaethyddol yn golygu llawer mwy na nifer yr anifeiliaid ar fferm. Mae camau breision wedi cael eu cymryd yn y diwydiant llaeth a'r diwydiant defaid er mwyn cynyddu cynhyrchiant, ond er gwaetha'r ymdrechion hynny, os bydd llai o anifeiliaid yn yr ucheldir gallai'r tir hwnnw fynd yn ôl i fod yn dir amgylcheddol gwael. Mewn rhai achosion, oherwydd natur ddatgysylltiedig y gyfundrefn gymorthdaliadau, gallai ffermwyr benderfynu peidio â defnyddio'r tir yn yr ardaloedd gwledig mwy ymylol. Mewn achosion eraill gallai gael ei ddefnyddio gan fusnes newydd neu i alluogi busnesau sy'n bodoli'n barod i ehangu.

Mewn termau real, efallai y byddai penderfyniad i gadw llai o stoc yn gwneud synnwyr i un busnes, ond gallai canlyniad y penderfyniadau unigol hyn gyda'i gilydd gael effaith ddifrifol ar fusnesau eraill yn y gadwyn gyflenwi. Byddai busnesau cyflenwi amaethyddol yn crebachu yn ogystal â gweithgareddau ymhellach i lawr y gadwyn gyflenwi megis lladd-dai a marchnadoedd da byw. Efallai y byddai busnesau sy'n sensitif i niferoedd yn cau eu drysau yn y pen draw wrth i'w mewnbwn ostwng yn is na'r lefelau adennill costau. Mae'n amlwg y byddai hyn yn cael effaith ar swyddi a thwf yn economi Cymru fel y gwelwyd yn ddiweddar wrth i Welsh Country Foods yn Gaerwen, Ynys Môn orfod cau.

Er nad yw'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig yn effeithio o reidrwydd ar gryfder ffermio, tynnwyd sylw yn "Datgloi Potensial yr Ucheldir", a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2012, at ostyngiad yn nifer y bobl sy'n siarad Gymraeg fel iaith gyntaf yn ardaloedd traddodiadol yr ucheldir. Roedd hyn yn peri pryder hefyd i'r rhanddeiliaid y cefais gyfle i'w cyfarfod gan mai'r ucheldiroedd ar un adeg oedd cadarnleoedd yr iaith Gymraeg. Gallai dirywiad pellach yn strwythur cymdeithasol-economaidd yr ardaloedd hyn arwain at ostyngiad sylweddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg yno.

Argymhelliad

- **Dylai'r Adran Cyfoeth Naturiol a Bwyd weithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg er mwyn dadansoddi effaith ardaloedd yr ucheldir ar gynnal a datblygu'r iaith Gymraeg ac asesu unrhyw ofynion polisi cysylltiedig ar gyfer y dyfodol.**

Gwella Perfformiad Technegol ac Amgylcheddol ar Ffermydd

Er mwyn bodloni'r diffiniad hwn o gryfder, mae angen i ffermwyr ddatblygu busnesau sy'n ddigon proffidiol drwy'r cylch busnes i allu ymdopi â digwyddiadau anffafriol megis tywydd eithafol, clefydau neu ostyngiad ym mhrisiau'r farchnad.

Un o'r rhwystrau mwyaf a welais oedd y ffaith nad oedd gan ffermwyr, yn enwedig yn yr ucheldir, yr wybodaeth angenrheidiol am gynllunio busnes / cynllunio ariannol.

Yr ail rwystr oedd y ffaith nad oedd busnesau'n ddigon amrywiol i ddarparu ffrydiau incwm rheolaidd eraill pan fydd y farchnad yn rhoi llai o elw am y cynnyrch amaethyddol.

Yn drydydd, nid oedd digon o symudedd yn y diwydiant i alluogi ffermwyr blaengar i ehangu a gwella effeithlonrwydd technegol ymhellach.

Ar wahân i effeithlonrwydd technegol ar ffermydd, mae angen gweithio'n barhaus i hyrwyddo a marchnata cynnyrch Cymru. Bydd angen i werthiant cig oen a chig eidion o Gymru gynyddu yn y farchnad gartref a'r farchnad allforio er mwyn cau'r bwlch fyddai'n bodoli pe bai cymorthdaliadau'n dod i ben.

Gweledigaeth y Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020 yw tyfu 30% erbyn 2020. Ar hyn o bryd mae cig yn cyfrannu 32% a llaeth yn cyfrannu 12% tuag at y trosiant presennol o £5.2 biliwn (Llywodraeth Cymru, 2013). Gan mai systemau da byw sy'n seiliedig ar laswellt sydd fwyaf cyffredin yng Nghymru, mae'n briodol bod y sectorau cig a llaeth yn cael blaenoriaeth yn y Rhaglen Datblygu Gwledig nesaf.

Yn yr adrannau a ganlyn, rwy'n ceisio datblygu fy marn ynglŷn â'r sail/seiliau rhesymegol dros ymyriad. Fodd bynnag, mae'n bwysig ein bod yn diffinio beth mae cryfder yn ei olygu a beth yw nodweddion busnesau cryf. At ddibenion yr adroddiad hwn rwy'n golygu:

Busnesau hyfyw, sy'n defnyddio'u hadnoddau'n effeithlon, sy'n gallu bodloni gofynion defnyddwyr ac sy'n gallu ymdopi ag amrywiadau yn y cylch busnes neu ddigwyddiadau eithafol sy'n cael eu sbarduno gan achosion naturiol heb gymorth ymyriad cyhoeddus sylweddol.

Gellid dadlau bod cymorth cyhoeddus yn atal newid ac ynysu ffermwyr oddi wrth y farchnad, ac ar y sail honno byddai'n synhwyrol dod â'r cymorth i ben a chael y diwydiant i ganolbwyntio mwy ar y farchnad. Wedi dweud hynny, oni bai fod cymorth eu cystadleuwyr yn dod i ben hefyd, mae'n bosibl y byddai ffermwyr Cymru dan anfantais o ran eu gallu i gystadlu.

Roedd yr adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth, *Impact of CAP reform 2013* (Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth, 2013), yn seiliedig ar y dybiaeth y byddai'r bwriad i drosglwyddo 15%, yr uchafswm a ganiateir, o Golofn 1 i Golofn 2 yn mynd yn ei flaen ac na fyddai cymorth yn cael ei gysylltu â sectorau yng Nghymru a Lloegr.

Dewisodd y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth newid y ffordd y cyfrifir cymorth i daliad fesul uned o allbwn o'r ffermydd nodweddiadol a ddadansoddwyd yn hytrach na chymorth fesul hectar. Mae'n bwysig ystyried hyn wrth asesu perfformiad y sector. Gan mai ychydig iawn o gyfleoedd busnes eraill sydd gan lawer o fusnesau fferm, yn enwedig yn yr ucheldir, mae'n bosibl y gallai gwahanol lefelau o gymorth yn y Deyrnas Unedig ac mewn aelod-wladwriaethau Ewropeaidd eraill ystumio cystadleurwydd perthynol.

Amcangyfrifodd y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth y **gallai** cymorth y PAC amrywio o:

- €0.41/kg yn Lloegr i €1.77/kg cyfwerth â phwysau byw yng Ngogledd Iwerddon ar gyfer cynhyrchu eidion o fuches sugno;
- €0.45/kg yn Lloegr i €1.16/kg cyfwerth â phwysau marw yng Ngogledd Iwerddon ar gyfer gorffen eidion [€0.24/kg i €0.63/kg cyfwerth â phwysau byw];
- €0.87/kg yn Lloegr i €1.65/kg cyfwerth â phwysau byw yng Ngogledd Iwerddon ar gyfer cynhyrchu ŵyn;
- 1.8¢/litr yn yr Alban i 2.6¢/litr yng Nghymru ar gyfer llaeth;
- €24/tunnell yn yr Alban i €36/tunnell cyfwerth â gwenith yng Nghymru ar gyfer cynhyrchu grawnfwydydd.

Argymhellion

- **Dylai swyddogion polisi Llywodraeth Cymru gadw llygad o hyd am ffactorau allanol a allai leihau gallu cyffredinol y diwydiant i gystadlu;**
- **Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu astudiaeth debyg er mwyn canfod sefyllfa Cymru o ran effaith y PAC ar weithgaredd amaethyddol fesul uned o allbwn.**

Datgysylltu cymorth oedd y cam cyntaf er mwyn cael y diwydiant i ganolbwyntio mwy ar y farchnad. Fodd bynnag, gall hyn effeithio ar y ffordd y bydd ffermwyr yn gwneud penderfyniadau yn y dyfodol. Mae symud arian i Golofn 2 er mwyn targedu cymorth tuag at ganlyniadau sy'n gwella perfformiad ac yn gwobrwyo ffermwyr am gyflwyno prosesau sy'n diogelu'r amgylchedd yn gam blaengar a dylid gwneud defnydd llawn ohono.

Yn dilyn y cynnydd yn eu costau a'r tywydd eithafol, mae ffermwyr yn dod yn fwyfwy ymwybodol bod mwy o bwysau arnynt i wneud arbedion effeithlonrwydd.

Mae syniadau newydd yn golygu bod ffermwyr yn rhannu eu hamser rhwng trin y tir a rheoli'r gwaith papur cynyddol. Mae'r gallu i reoli'r cydbwysedd rhwng 'risg a gwobr' er mwyn darparu'r bwyd y mae arnom ei angen yn hanfodol ar gyfer hyfywedd a llwyddiant masnachol. Mae angen gwneud hyn mewn ffordd sy'n rhoi digon o arian yn ôl i fusnesau am eu llafur a'u buddsoddiadau cyfalaf. Gall buddsoddi mewn technoleg helpu i wella perfformiad a gwneud arbedion effeithlonrwydd. O ganlyniad, dylid canolbwyntio ar ffermydd sy'n dangos eu bod yn awyddus i fanteisio ar ddatblygiadau technolegol newydd.

Argymhelliad

- **Dylid darparu dull o ymateb i ofynion y farchnad mewn cynllun pwrpasol sy'n cynnwys yr offer a'r wybodaeth a fydd yn galluogi ffermwyr i ddatblygu busnesau cryfach.**

Cynnig sy'n ymwneud ag Amaethyddiaeth Gynaliadwy

Mae gwahaniaethau mawr i'w gweld rhwng y perfformiadau cyfartalog a'r perfformiadau sydd yn y traean uchaf ym mhob sector. Rwy'n derbyn bod hyn yn seiliedig ar wybodaeth am elw gros nad yw'n ystyried costau sefydlog, ond mae'n dal yn arwydd perthnasol iawn o ddealltwriaeth ffermwr o gostau a'i allu technegol.

Ym mhob achos mae gwahaniaeth mawr rhwng y traean uchaf a'r cyfartaledd ar gyfer pob fferm. Mae Arolwg o Fusnesau Fferm 2012 yn dangos yr amrywiant mwyaf yn yr Ardaloedd dan Anfantaï Fawr. Mae pob fferm ddefaid yn dangos cyfartaledd o £37.54, â'r traean uchaf yn £63.90. Mae buchod sugno mewn Ardaloedd dan Anfantaï Fawr hefyd yn arwyddocaol, ac mae'r data'n dangos gwahaniaeth o £177.23 rhwng y cyfartaledd a'r cynhyrchwyr sydd yn y traean uchaf. Mae'r canlyniadau ar gyfer buchod sugno'n debyg ym mhob rhan o Gymru. Mae'r sector llaeth hefyd yn dangos amrywiant rhwng y cyfartaledd a'r perfformiadau yn y traean uchaf ond nid yw'r bwlch mor fawr ag yn y sectorau defaid ac eidion, ac ag ymdrech fawr rwy'n ffyddiog y gellir cywiro hyn dros gyfnod rhesymol.

Ffig 6: Y gwahaniaeth rhwng Elw Gros Pob Fferm a'r Traean Uchaf ym mhob sector (Prifysgol Aberystwyth, 2013)

Gross Margins Hill Sheep (Per Ewe)			
	All Farms	Top Third	Difference
	37.54	63.90	26.36
Gross Margins Upland Sheep (Per Ewe)			
	All Farms	Top Third	Difference
	58.08	86.82	28.74
Gross Margins Lowland Sheep (Per Ewe)			
	All Farms	Top Third	Difference
	66.43	88.69	22.26
Gross Margins Hill Suckler Cows (Per Cow)			
	All Farms	Top Third	Difference
	294.33	471.56	177.23
Gross Margins Upland Suckler Cows (Per Cow)			
	All Farms	Top Third	Difference
	338.00	506.51	168.51
Gross Margins Lowland Suckler Cows (Per Cow)			
	All Farms	Top Third	Difference
	385.85	616.74	230.89
Gross Margins Hill and Upland Dairy (Per Cow)			
	All Farms	Top Third	Difference
	923.69	1221.33	297.64
Gross Margins Lowland Dairy (Per Cow)			
	All Farms	Top Third	Difference
	984.84	1331.97	347.13

Mae angen i'r Rhaglen Datblygu Gwledig gynnwys rhaglen trawsnewid ffermydd sy'n anelu'n bennaf at wella hyfywedd ariannol busnesau fferm. Dylai cymorth gael ei dargedu'n bennaf tuag at y busnesau hynny sy'n benderfynol o fod yn fwy effeithlon ac o allu ymdopi heb gymorth cyhoeddus yn y pen draw – mewn geiriau eraill, helpu'r rhai sy'n barod i helpu eu hunain.

Rwyf wedi bod yn gweithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru er mwyn ceisio gweld sut y mae ffermwyr yng Nghymru'n cynhyrchu cynnyrch sy'n bodloni gofynion y cwsmer ac yn cyflawni lefel uchel o gyfrifoldeb amgylcheddol.

Roedd y gweithgor a sefydlwyd yn cynnwys cynrychiolwyr o HCC, Dairy Co, NSA, CFfl Cymru yn ogystal â staff polisi a thechnegol Llywodraeth Cymru. Mae gwaith yr is-grŵp hwn wedi arwain at ddatblygu un model cymorth busnes i fusnesau ffermio.

Datblygwyd y model er mwyn sicrhau bod penderfyniadau, gweithgareddau a buddsoddiadau ar ffermydd yn cael eu gwneud yng nghyd-destun y busnes cyfan â'r nod o fod yn uned gynaliadwy yn y pen draw. Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr ddilyn pob cam o'r ymyriad a bydd rhai elfennau megis cynllunio busnes a chynlluniau iechyd anifeiliaid/planhigion yn orfodol. Bydd hyn yn cyfyngu ar allu'r ymgeiswyr i wneud cais am fuddsoddiad cyfalaf a'i gael heb ddangos sut y gellir cyfiawnhau'r buddsoddiad yn y busnes cyffredinol.

Mae'r gweithgaredd arfaethedig yn cyfuno elfennau o raglenni sy'n bodoli'n barod â'r Cynllun Cymorth i Newydd-ddyfodiaid (YESS), Cyswllt Ffermio a chynllun Glastir – Grantiau Effeithiolrwydd i ffurfio un model busnes. Bydd y cwsmer yn gweld un dull o gyflawni, ond cydnabyddir yn fewnol y byddai nifer o wahanol ganghennau polisi a chyflawni yn Llywodraeth Cymru'n ymwneud â'r broses.

Dylid gwneud y rhaglen yn hawdd i'r ffermwr ei defnyddio a dylai mynediad gynnwys contract rhwng Llywodraeth Cymru a'r busnes unigol. Bydd y contract yn nodi nifer o welliannau i helpu'r busnes i fod yn fwy hyfyw yn y dyfodol. Bydd y rhain yn ymrwymadau contract a bydd y busnes yn cael cymorth ar ffurf cyngor technegol, grant, benthyciad, a/neu warant benthyciad, i ymgymryd â chyfres o weithgareddau a fydd yn gwella cynhyrchiant y fferm ac yn gwneud arbedion effeithlonrwydd. Bydd y cynllun yn cael ei deilwra ar gyfer y busnes unigol a bydd yn cael ei fonitro drwy gydol y broses.

Bydd y cynllun yn cynnwys nifer o wahanol becynnau gwella busnes sydd wedi'u cynllunio er mwyn helpu ffermwyr i:

- Wella dulliau rheoli glaswelltir;
- Gwella effeithlonrwydd adnoddau;
- Mesur Perfformiad e.e. meincnodi;
- Gwella gallu genetig da byw;
- Gwella iechyd buches a diadell; ac
- Annog mwy o ffermwyr i ddefnyddio technoleg a thechnegau arloesol ym mhob sector, gan ganolbwyntio'n benodol ar y diwydiant cig coch.

Ymchwil, Datblygu, Sgiliau a Chyfnewid Gwybodaeth

Mae Cymru'n ffodus ei bod wedi buddsoddi mewn gwasanaethau ymestyn amaethyddol rhagorol megis "Cyswllt Ffermio", a'r cyrff ardollau perthnasol, ond mae tystiolaeth yn awgrymu mai ychydig iawn o ffermwyr sy'n newid eu dulliau cynhyrchu o ganlyniad i gyngor ar hyn o bryd. Mae'r nifer yn cynyddu os oes elfen o grant cyfalaf ynghlwm wrth y rhaglen unigol.

Llwyddodd y cynllun mentora YESS i drosglwyddo rhywfaint o wybodaeth ar ffermydd ac roedd tystiolaeth bod newydd-ddyfodiaid yn cael eu cyfeirio tuag at wasanaethau eraill. Roedd hyn yn cael ei nodi fel arfer da yn yr adroddiad "Hwyluso'r Drefn". Er hyn, mae nifer fawr o hyd nad ydynt yn ymgysylltu'n llawn ac yn defnyddio'r gwasanaethau trosglwyddo gwybodaeth a gwyddoniaeth gymhwysol er budd cyffredinol i'w busnes. Dyma pam rwyf yn argymhell dull o ddarparu cyngor i ffermwyr a gwasanaethau trosglwyddo gwybodaeth sy'n seiliedig ar haenau.

Mae lle i wasanaethau eang a bas yn y dyfodol o hyd, ond nid oes angen cynifer ohonynt. Rhaid i'r gwaith o gydlyn deunydd cyhoeddedig a digwyddiadau fod yn swyddogaeth ganolog fel nad yw'r gwasanaeth yn cael ei lastwreiddio, a lle bo modd dylid defnyddio'r strwythurau presennol megis y byrddau ardollau i gyflawni'r gwaith. Mae'r cyrff ardollau'n atebol i'r diwydiant ffermio ac oherwydd y cysylltiad hwn credaf mai'r byrddau hyn sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu gwasanaethau ymestyn priodol, yn rhannol o leiaf.

Er mwyn sicrhau newid go iawn, mae angen i'r gwasanaeth gael ei integreiddio'n ddyfnach yn y daliadau fferm unigol, gan ddarparu gwasanaeth wedi'i deilwra ar gyfer y daliad unigol, a gweithredu fel sianel i gael mynediad at ragor o gymorth ariannol i gyflwyno newid go iawn sy'n hybu mwy o gynhyrchiant, a manteision ariannol, amgylcheddol a chymdeithasol ehangach i'r busnesau fferm. Dylid sicrhau bod ffermwyr a pherchnogion tir sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwn yn gallu mesur y manteision yn rhannol yn eu cyfrifon elw a cholled.

Mae angen i'r gwasanaeth roi pwyslais ar sgiliau. Mae angen sgiliau ar wahân i'r sgiliau ffermio traddodiadol ym myd amaeth heddiw, megis sgiliau GIS, a sgiliau technoleg gwybodaeth yn fwyaf penodol. Roedd yn amlwg o sgwrsio â'r

rhanddeiliaid fod y sector â'r sector llaeth wedi derbyn hyn yn barod, ond roedd llawer o waith i'w wneud eto yn y diwydiant cig coch.

Credaf y gallai'r newid hwn fod o fudd sylweddol i amaethyddiaeth ac i'r gymdeithas ehangach yng Nghymru. Byddai peidio â newid yn gwbl ddi-fudd.

Cynllun cyffrous arall sydd wedi dod gerbron yw'r cyfarwyddyd gorfodol i greu Partneriaethau Arloesedd Ewropeaidd. Gellid dadlau, i ryw raddau, bod ymchwil mewn amaethyddiaeth wedi colli ei statws ers y 1970au o ganlyniad i orgynhyrchu ac agor y farchnad fyd-eang, gan ganiatáu mewnforion rhad. Roedd diogelu'r cyflenwad bwyd yn fater a oedd yn cael ei gymryd yn ganiataol mewn gwledydd datblygedig tan yn ddiweddar pan wnaethpwyd datganiad clir yn nadansoddiad Foresight o ddiogelwch y cyflenwad bwyd yn y dyfodol ar gyfer Llywodraeth y Deyrnas Unedig (Yr Adran Busnes Arloesi a Sgiliau, 2011) yn nodi bod angen cefnogi diwydiant bwyd y Deyrnas Unedig (y sector diwydiant mwyaf) yn y dyfodol.

Yn fy nhrafodaethau gyda rhanddeiliaid, roedd yr angen i allu darparu bwyd ar gyfer cynnydd disgwyledig yn y boblogaeth yn uchel ar eu agenda. Y cwestiwn a oedd yn cael ei ofyn yn amlach na pheidio oedd sut rydyn ni'n mynd i wneud hyn; nid oedd tystiolaeth i awgrymu eu bod yn gwybod sut y bwriedid i'r ymchwil angenrheidiol gael ei gwneud ac ychydig iawn oedd yn ymwybodol o'r agenda ymchwil a sut y byddai'r ymchwil honno'n cael ei defnyddio yn ddiweddarach ar ffermydd. Mae "Repairing a fractured pipeline: Improving the effectiveness of agricultural R&D in the UK" (Pollock, 2013) yn cadarnhau, os ydym am hybu arloesedd a chynyddu'r defnydd o wybodaeth a'r arferion gorau, bod angen i ffermwyr ymwneud â'r agenda ymchwil a bod angen i'r canfyddiadau fod ar gael ar ffermydd mewn ffurf hawdd ei defnyddio.

Mae'r Bartneriaeth Arloesedd Ewropeaidd yn cynnig cyfle i rannu'r arferion gorau yn y Deyrnas Unedig ac mewn Aelod-wladwraïethau eraill. Mae angen i Gymru fanteisio ar hyn a gwneud iddo weithio gan sicrhau bod yr ymchwil yn gydnaws â thrywydd Amaethyddiaeth Cymru yn y dyfodol. Mae'n rhaid sicrhau bod gwybodaeth a chymwysiadau newydd yn gallu cyrraedd y defnyddiwr terfynol cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Argymhellion

- **Dylid mabwysiadu dull gweithredu haenog, sydd wedi'i deilwra – ac sy'n canolbwyntio ar ansawdd – er mwyn darparu gwasanaethau ymestyn**

amaethyddol. Dylai pwyslais ar gynyddu cynhyrchiant a lleihau'r effeithiau negyddol ar yr amgylchedd fod yn rhan ganolog o waith datblygu polisi yn y dyfodol (gan sicrhau nifer o ganlyniadau o un ymyriad lle bo modd);

- Mae angen i ffermwyr ymwneud â dylanwadu ar yr agenda ymchwil ar gyfer y dyfodol drwy gynlluniau fel y Bartneriaeth Arloesedd Ewropeaidd newydd;**
- Dylid datblygu cynigion ymchwil ar y cyd â'r diwydiant drwy ddull amlddisgyblaethol a dylai'r holl weithgareddau trosglwyddo gwybodaeth dilynol adlewyrchu trywydd diwydiant ffermio Cymru yn y dyfodol;**
- Dylid sefydlu modelau Cyfnewid Gwybodaeth sy'n darparu budd i'r diwydiant cyn gynted ag y bo modd;**
- Gweithio ym mhob rhan o'r diwydiant er mwyn lleihau effeithiau ar yr amgylchedd gan ddal i ganolbwyntio ar fod yn gystadleuol;**
- Blaenoriaethu'r sector cig coch er mwyn datblygu sgiliau a chynyddu'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth a thechnolegau newydd.**

Y Gadwyn Gyflenwi Ehangach

Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, mae angen rhoi sylw i ddau faes penodol er mwyn gwneud y diwydiant bwyd yn gryfach. Rwyf wedi canolbwyntio ar berfformiad technegol y diwydiant cynradd, ond mae angen edrych hefyd ar her ehangach “Gwerthiant Newydd a Chynnyrch Newydd” i'r gadwyn gyflenwi. Gwelir ymwybyddiaeth gref o frand cig coch Cymru ac o'r manteision cysylltiedig i'r sector bwyd ehangach yng Nghymru, ond mae angen rhoi tipyn o sylw a chefnogaeth i faes ychwanegu gwerth at gynnyrch cig coch Cymru.

Un o'r prif ffactorau hyd yn hyn wrth geisio datblygu'r diwydiant cig coch yng Nghymru yw ehangu ein gorwelion o ran ble mae'r cynnyrch yn cael ei werthu. Yn ystod 2012, roedd y farchnad allforio ar gyfer cig oen a chig eidion o Gymru'n werth tua £183.9 miliwn (Llywodraeth Cymru, 2013).

Mae hyn wedi arwain at gyfleoedd newydd rhagorol yn y marchnadoedd newydd sy'n datblygu, ond rwy'n dal i gofio diwedd y 1990au a gwerth isel yr ewro; cafodd hyn effaith fawr iawn ar brisiau wrth gât y fferm a bu'n rhaid i'r diwydiant aros tan 2005 cyn i'r prisiau godi. Rhaid i ni ddysgu o'r profiad hwn ac er ein bod yn mwynhau manteision y farchnad allforio ar hyn o bryd rhaid i ni gadw cydbwysedd a sicrhau cynifer ag sy'n bosibl o gyfleoedd i werthu cig coch Cymru yn y farchnad gartref (y Deyrnas Unedig) a sicrhau bod rhagor o waith datblygu cynnyrch yn cael ei wneud er mwyn gwneud cynnyrch cig oen Cymru'n fforddiadwy i'r defnyddwyr cartref.

Er mwyn gwneud hyn bydd angen i HCC, y Canolfannau Datblygu bwyd ac eraill ddatblygu cynnyrch newydd ar gyfer gofynion bywydau prysur yr oes hon. Bydd sicrhau'r cydbwysedd hwn yn dipyn o gamp, oherwydd er bod Cig Oen Cymru'n gynnyrch o safon mae tuedd i feddwl ei fod yn ddrud. Fel y nodwyd yn gynharach, bydd ffermydd yn gwneud elw drwy weithredu'n fwy effeithlon, ond nid dyna'r unig ateb ac mae angen i weddill y gadwyn gyflenwi ysgwyddo rhywfaint o gyfrifoldeb a gwneud yn siŵr eu bod yn dal i arloesi er mwyn cynyddu'r nifer sy'n prynu cig oen a chynnyrch eraill o Gymru yn y farchnad gartref a'r farchnad allforio.

Mae tryloywder yn y gadwyn fwyd wedi bod yn un o nodau hirdymor y Llywodraeth, ond mae wedi bod yn anodd i'w gyflawni hyd yn hyn. Mae'n anodd mesur yr

amrywiadau mewn gwerth ychwanegol yn y gadwyn fwyd, ond mewn termau real mae'r data'n dangos bod cyfran y ffermwr o werth ŵyn rhwng 1998 a 2012 wedi gweld gostyngiad o 12% y kg o gynnyrch heb ei drimio (Wolters Kluwer (UK) Limited, 2013).

Dylai swyddogion Llywodraeth Cymru geisio sicrhau bod cadwyn gyflenwi integredig, broffidiol, gryf, ddiogel a chynaliadwy sy'n bodloni safonau uchel i'w chael yng Nghymru. Bydd hyn yn annog twf cynaliadwy, tra'n bodloni gofynion y marchnadoedd a'r defnyddwyr rydym yn eu gwasanaethu, a'r cyfan o fewn cyfyngiadau fframweithiau deddfwriaethol ac amgylcheddol.

Argymhellion

- **Dylai Datblygu Cynnyrch fod yn rhan annatod o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Diwydiant Cig Coch Cymru;**
- **Mae angen rhoi pwyslais ar gynyddu gwerthiant y Farchnad Gartref a'r Farchnad Allforio;**
- **Dylai swyddogion Llywodraeth Cymru gefnogi a helpu i ddatblygu mwy o dryloywder mewn cadwyni cyflenwi ar ffermydd a'r tu hwnt i gât y fferm;**
- **Hyrwyddo a chefnogi Dynodiad Daeryddol Gwarchodedig cynnyrch Cymreig.**

Er mwyn gwella cystadleurwydd a pherfformiad busnes dylai Llywodraeth Cymru a HCC gefnogi datblygu lladd-dai lleol yn ogystal â safleoedd prosesu mawr. Mae'n rhaid cael safleoedd prosesu mawr er mwyn gwasanaethu'r siopau bwyd mawr, ond ers y sgandal cig ceffyl mae awgrym bod defnyddwyr yn newid eu harferion prynu. Byddai creu a chefnogi lladd-dai lleol yn caniatáu i ffermwyr lleol gyflenwi cigyddion a manwerthwyr lleol, ac mae hyn yn sicr o fod o fudd i'r diwydiant ac i'r economi ehangach.

Argymhelliad

- **Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi datblygu marchnadoedd da byw lleol a lladd-dai lleol er mwyn sicrhau cadwyni cyflenwi cryf i fanwerthwyr annibynnol bach.**

Cynlluniau Amgylcheddol

Yn ystod y cyfnod a dreuliais gyda ffermwyr a rhanddeiliaid, cyfeiriwyd droeon at yr amgylchedd a'i bwysigrwydd. Mae'n amlwg bod pobl yn dal i gredu bod gan ucheldir Cymru ran bwysig i'w chwarae er mwyn gweithredu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

Un o'r rhai cyntaf i amlinellu her newid yn yr hinsawdd, a'r effaith ar gynhyrchu bwyd yn y dyfodol, oedd Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru yn ei araith "On the Future of Food", 2011 (HRH Prince of Wales, 2011). Cadarnhawyd hyn yn fwy diweddar yn adroddiad "Datgloi Potensial yr Ucheldir" (Fforwm Ucheldir Cymru, 2012) a gynhyrchwyd gan Fforwm Ucheldir Cymru yn 2012. Mae'n bwysig felly bod goblygiadau'r hinsawdd a'r tywydd yn cael eu hystyried lle bo'n briodol yn ystod pob cam o gylch polisi Llywodraeth Cymru a bod mesurau lliniaru'n cael eu rhoi ar waith lle bo'n bosibl.

Mae'r cynllun amaeth-amgylcheddol presennol, Glastir, wedi denu nifer o sylwadau, er bod adolygiad a phroses bwysio a mesur wedi cael eu cynnal, a'r rheini wedi lleddfu pryderon ffermwyr i ryw raddau ac arwain at gynnydd sylweddol yn y ceisiadau, yn enwedig yn yr ucheldir.

Er hyn, teimlai rhai rhanddeiliaid nad yw rhai o ofynion amgylcheddol Glastir yn ystyried yr angen i gadw cynhyrchiant ar lefel benodol er mwyn cadw strwythur y diwydiant defaid. Nid yw trefniadau stocio anhyblyg yn briodol mewn rhai achosion er mwyn rheoli'r daliad yn effeithiol, ac ni all y dulliau traddodiadol o fugeilio diadelloedd mynydd ffynnu dan y trefniadau presennol. Roedd pryder hefyd ynglŷn â lefelau stocio ar y mynyddoedd, yn enwedig y lleihad mewn systemau pori cymysg.

Mae dwysedd stocio isel iawn yn barod mewn rhai rhannau o'r ucheldir o ganlyniad i gynlluniau amaeth-amgylcheddol blaenorol. Gwelir hyn yn Astudiaeth Cwm Elan a oedd yn dangos yn glir bod cyfraddau stocio'n is nawr nag yr oeddent yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg (Joyce, 2013). Mae hyn, ynghyd â gorburi mewn rhai ardaloedd yn y gorffennol, wedi arwain at gynnydd sylweddol mewn rhedyn a glaswellt Molina sy'n ymledu i ardaloedd porthiant pwysig a hawliau tramwy mewn rhai rhannau o Gymru.

Gall tanbori amharu ar ganlyniadau amgylcheddol; ac os bydd yr elw'n gostwng eto a ffermwyr yn dechrau cadw llai o stoc, gallai hyn olygu bod problemau amgylcheddol yn crynhoi yn y dyfodol wrth i'r sefyllfa ddatblygu.

Nid yw peidio â gwneud unrhyw ddefnydd o dir yn broblem yng Nghymru eto, ond mae llunwyr polisïau'n dechrau pryderu ynglŷn â'r posibilrwydd y bydd achosion o'r fath yn cynyddu.

Y prif ardaloedd sy'n debygol o weld rhagor o ddadstocio yw'r ardaloedd hynny a fydd yn cael eu diffinio fel ardaloedd rhostir yn unig, sy'n cael eu dosbarthu ar hyn o bryd fel Ardaloedd dan Anfantaï Fawr. Mae'r tir hwn, yn draddodiadol, wedi bod yn rhan o'r daliad cynhyrchiol, ond mae ffermwyr wedi mynegi pryder na fyddai ganddynt ddewis arall pe baent yn cael eu rhoi dan ragor o bwysau ariannol ond cadw llai o stoc er mwyn lleihau costau.

Cadarnhaodd pob un o'r rhanddeiliaid a gyfarfûm fod rhostir yn gallu darparu llawer mwy o fanteision amgylcheddol, os yw'n cael ei reoli'n iawn. Teimlaf ei bod yn bwysig bod sylw arbennig yn cael ei roi i'r ardaloedd hyn a bod arian datblygu gwledig ar gael i gefnogi'r potensial i ddarparu gwasanaethau ecosystemau a nwyddau a gwasanaethau cyhoeddus ehangach ar y cynefinoedd hyn sydd mor bwysig o safbwynt yr amgylchedd. Dylid gwneud hyn drwy fesurau sydd hefyd yn helpu i gadw strwythur y diwydiant defaid yng Nghymru.

Yn draddodiadol, mae cynlluniau amaeth-amgylcheddol hefyd wedi helpu i gynnal neu adfer nodweddion tirwedd pwysig megis waliau cerrig, adeiladau fferm traddodiadol a gwrychoedd neu berthi. Mae hwn yn waith costus, ond mae'r cynlluniau blaenorol hyn wedi galluogi perchnogion tir i wneud rhywfaint o'r gwaith cynnal a chadw pwysig hwn, gan ddarparu ffynhonnell gyflogaeth bwysig i'r cymunedau gwledig. Mae'r gweithgareddau hyn yn dal i gael eu cefnogi gan y cynllun Glastir Uwch, ond mynegwyd pryder nad yw pob perchennog tir yn ucheldir Cymru'n gallu manteisio ar y cynllun hwn.

Cyhoeddodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd yn 2013 y bydd pawb sydd â chontract tir comin Glastir yn cael cynnig cyfle i arwyddo contract Uwch. Roedd hwn yn gam cadarnhaol iawn. Fodd bynnag, gan fod y parth rhostir mor bwysig ar gyfer y blaenoriaethau ehangach a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru, credaf y dylai

tiroedd eraill sy'n cael eu ffermio yn y parth rhostir hwn gael mynediad at haen uwch Glastir hefyd.

Yn ddiddorol iawn, pan oeddwn yn trafod Glastir gyda ffermwyr yr iseldir, mae'n ymddangos mai grant effeithlonrwydd Glastir oedd y cymhelliant i ymuno â'r cynllun i ddechrau yn hytrach na'r dewisiadau amgylcheddol. Mae hwn yn gynllun rhagorol gan ei fod yn darparu'r cymhelliant angenrheidiol i'r ffermydd dwysach gynnal ac, mewn rhai achosion, gynyddu eu cynhyrchiant yn ogystal â chyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a lleihau effaith negyddol amaethyddiaeth ar yr amgylchedd.

Cadarnhaodd trafodaethau pellach fy marn wreiddiol na ddylai cymryd rhan yn y cynllun Mynediad amaeth-amgylcheddol Fferm Gyfan fod yn un o'r gofynion ar gyfer ffermydd dwysach sy'n dymuno cael cymorth i gynyddu effeithlonrwydd adnoddau ar y fferm.

Roedd y rhanddeiliaid yn hollol bendant y dylid cadw cymorth a allai arwain at werth amgylcheddol yng nghyfnod y rhaglen nesaf.

Dylid datblygu'r cynnig Glastir yn y dyfodol er mwyn galluogi mwy o hyblygrwydd i'r ffermydd hynny sy'n dymuno gwneud gwaith amgylcheddol cadarnhaol ehangach heb roi effeithlonrwydd cyffredinol yr uned amaethyddol yn y fantol.

Mae'r Rhaglen Datblygu Gwledig newydd ar gyfer Cymru 2014-20 yn cynnig cyfle i gyflwyno a datblygu'r argymhellion isod o ran y cynnig amaeth-amgylcheddol a sut y bydd yn effeithio ar ucheldir Cymru.

Argymhellion

- **Sicrhau bod mwy o gymorth amaeth-amgylcheddol ar gael ar gyfer pob ardal rhostir caeedig yn unig;**
- **Ailystyried y systemau stocio presennol yn yr ucheldir er mwyn mynd i'r afael â mater tanburi drwy gyflwyno cyfraddau stocio isaf;**
- **Cymell systemau pori cymysg;**
- **Cefnogi mesurau i fynd i'r afael â rhedyn sy'n ymledu yn yr ucheldir.**

Taliad am wasanaethau ecosystemau (TWE)

Maes arall y gellir ei ystyried er mwyn ychwanegu at incwm ffermydd yr ucheldir yw taliad am wasanaethau ecosystemau. Mae cymdeithas yn cael budd o nifer o adnoddau a phrosesau sy'n cael eu cyflenwi gan ecosystemau naturiol. Cyfeirir at y rhain gyda'i gilydd fel gwasanaethau ecosystemau.

Gellir diffinio 'Taliadau am Wasanaethau Ecosystemau' fel taliadau i reolwyr tir ac eraill er mwyn cyflawni gweithgareddau sy'n atgyfnerthu ecosystemau. Bydd hyn yn golygu eu bod yn gallu darparu rhagor o wasanaethau ecosystemau, â hir oes, sydd o safon uwch ac sydd o fudd i ddefnyddwyr penodol ac i ddefnyddwyr cyffredinol.

Mewn cyd-destun Cymreig mae TWE yn cynnwys ystod eang o weithgareddau a chanlyniadau sy'n gysylltiedig â'r tir. Mae'r rhain yn cynnwys cynhyrchu ynni, ansawdd dŵr, dŵr ar gyfer gwaith prosesu diwydiannol, dal, storio a rheoli carbon, cyfleoedd ar gyfer mynediad i'r cyhoedd, lliniaru llifogydd neu amddiffyn rhag llifogydd.

Cyfleoedd yn yr Ucheldir

Mae taliadau am wasanaethau ecosystemau'n cynnig potensial fel set newydd o nwyddau a gwasanaethau y gall ffermwyr yr ucheldir eu cynnig, ond mae'n farchnad newydd sy'n datblygu o hyd ac mae nifer o faterion y mae angen eu datrys cyn y gall y marchnadoedd hyn gynnig ffrwd incwm gredadwy i ystod eang o ffermwyr yr ucheldir. Cyn y gellir gwireddu'r cyfleoedd hyn mae angen datblygu system gwerth ar gyfer gwasanaethau ecosystemau. Mae hyn yn dechrau digwydd wrth i farchnadoedd gael eu creu (carbon) ond mae costau gwaith peiranyddol yn codi. Fodd bynnag, yn ystod fy nhrafodaethau roedd cytundeb cyffredinol nad yw TWE yn debygol o ddod yn ffrwd incwm sylweddol i reolwyr tir yr ucheldir yn ystod cyfnod y Rhaglen Datblygu Gwledig nesaf. Oherwydd y manteision hirdymor posibl ni ddylai gael ei anwybyddu yn y Rhaglen Datblygu Gwledig newydd, ond dylid trefnu disgwyliadau a dylai cymorth cysylltiedig yn yr un modd fod yn realistig.

Un maes y byddai o bosibl yn werth rhoi rhagor o sylw iddo yn yr ucheldir yw cynorthwyo hwyluswyr i ddatblygu cynlluniau lleol, bach i gysylltu busnesau

twristiaeth bach â ffermwyr yr ucheldir. Y dasg allweddol yn y cyswllt hwn fydd dod o hyd i dir cyffredin er mwyn cael trefniant a fyddai o fudd i'r ddwy ochr.

Er enghraifft, gallai cynllun lleol fod yn un lle mae pob pryniant a wneir yn cynnwys taliad ychwanegol bach sy'n mynd i gronfa a fydd yn darparu ffynhonnell gyllid ar gyfer gweithgaredd rheoli tir penodol y mae'r busnesau twristiaeth yn ei werthfawrogi, megis adfer gwrychoedd neu berthi neu greu rhagor o lwybrau mynediad caniataol neu leoedd parcio. Rhaid i'r cynlluniau hyn gael eu datblygu ar lawr gwlad er mwyn iddynt gael eu derbyn gan y ddwy ochr sy'n cymryd rhan ynddynt.

Argymhellion

- **Ystyried cynnwys cynlluniau taliadau am wasanaethau ecosystemau (TWE) lleol yn y Rhaglen Datblygu Gwledig, LEADER a rhaglenni sy'n cael eu harwain gan y gymuned;**
- **Hwyluso prosiectau newydd mewn sefyllfaoedd yn yr ucheldir a'r iseldir er mwyn dangos y llyfr achosion 'prawf o gysyniad' ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol.**

Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni

Un o'r prif feysydd y mae angen eu hystyried yw lleihau costau mewnbwnau. Costau ynni yw'r costau uchaf ond un i ffermydd, felly mae angen mynd i'r afael â'r ddibyniaeth ar gyflenwadau ynni arferol. Mae angen i ffermydd fanteisio ar yr amgylchedd naturiol a'r elfennau o'u cwmpas. Mae'r gallu gan lawer o ffermydd, gan gynnwys ffermydd yn yr ucheldir, i gynhyrchu ynni o dechnolegau gwynt, dŵr a solar. Byddai hyn yn helpu Llywodraeth Cymru i gyrraedd ei tharged o ostyngiad o 3% mewn CO₂, sy'n rhan o'i strategaeth ar y newid yn yr hinsawdd, a gallai hefyd fod yn ffynhonnell incwm arall i ffermydd yr ucheldir.

Mae dwy broblem i ardaloedd yr ucheldir: nid yw cyflenwadau trydan teirgwedd yn gyffredin yn yr ardaloedd hyn, ac mae seilwaith i allforio ynni yn ôl i'r grid cenedlaethol yn brin. Mae ffermydd yr iseldir yn fwy tebygol o allu manteisio ar y dewisiadau hyn yn gynharach, oherwydd gwell enillion ariannol, mynediad at seilwaith yn fwy hwylus o bosibl, a'r ffaith fod ffermydd dwysach yn fwy tebygol o gael cyflenwadau trydan teirgwedd.

Er hyn gellid datblygu ymyriadau o amgylch dichonoldeb ac elfennau cynllunio cynllun ynni adnewyddadwy ar fferm.

Ffordd symlach o leihau costau mewnbwn ynni o bosibl fyddai hybu effeithlonrwydd ynni, er enghraifft newid llifoleuadau sodiwm o amgylch y buarth am systemau LED sy'n defnyddio llai o ynni.

Argymhellion

- **Dylai Llywodraeth Cymru gynnal astudiaeth er mwyn nodi capasiti presennol y seilwaith ynni yn ucheldir Cymru;**
- **Creu cynllun mentora er mwyn datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy ar fferm / cymunedol, yn cael eu darparu drwy'r model 'Cyswllt Ffermio';**
- **Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu pecyn o gymorth hwyluso i roi cyngor i ffermwyr ynglŷn ag effeithlonrwydd ynni a mynd i'r afael â materion effeithlonrwydd ynni drwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig yn ogystal â chynnig cymhelliant ariannol i newid systemau aneffeithlon;**

- **Cefnogi buddsoddiad cyfalaf micro ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy ar ffermydd.**

Ymuno, Gadael a Symud yn y Diwydiant

Ni all unrhyw adolygiad o gryfder fod yn gyflawn heb ystyried y genhedlaeth nesaf. Dengys y dosbarthiad presennol o brif ddeiliaid fferm yn ôl oedran bod mwy na 63 y cant o'r ffermwyr dros 55 oed o'i gymharu â 60 y cant yn 2005. Er hyn mae nifer y deiliaid fferm sydd dan 35 oed wedi cynyddu ychydig o 2.7 y cant i 3.1 y cant yn ystod yr un cyfnod.

Mae symudedd yn y diwydiant wedi bod yn gymharol sefydlog nid yn unig yng Nghymru, ond yn Ewrop hefyd. Mae gwaith Malcolm Thomas wedi dangos yn glir bod angen i bolisi gael agwedd gytbwys er mwyn sicrhau bod pobl yn ymuno â'r diwydiant ac yn gadael y diwydiant. Mae'r diwydiant eisoes yn gweld rhywfaint o effeithiau diffyg symudedd yn y sector, â lefelau isel o arloesedd a dim llawer o dystiolaeth bod ffermwyr yn manteisio ar gyfleoedd i drosglwyddo gwybodaeth er mwyn gwella effeithlonrwydd technegol, yn enwedig yn y sector defaid. Mae'r Cynllun Cymorth i Newydd-ddyfodiaid (YESS) wedi tynnu sylw at y broblem, a byddwn yn argymhell bod yr arfer da'n parhau mewn rhaglen ehangach yn ystod cyfnod y Rhaglen Datblygu Gwledig nesaf.

Argymhellion

- **Cynnig ehangach i Newydd-ddyfodiaid Ifanc yn y Rhaglen Datblygu Gwledig nesaf a fydd yn cynnwys pecyn cychwyn;**
- **Dylai Llywodraeth Cymru ystyried dewisiadau polisi a fyddai'n helpu i gynyddu symudedd yn y sector, gan gynnwys (os yw'n briodol) cymorth hwyluso drwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig.**

Monitro cynnydd

Rhaid i fesur cynnydd y Rhaglen Datblygu Gwledig nesaf yn y 'byd go iawn' fod o'r pwys mwyaf mewn cynlluniau monitro yn y dyfodol, a rhaid i'r trywydd fod yn agored i'w herio'n drylwyr. Wrth fonitro maint y cynnydd mewn proffidioldeb, dylid cynnwys dangosyddion allweddol megis cyfrif elw a cholled, rheoli llif arian, elw gros a net ynghyd ag allbwn fesul uned. Dyma pam y mae'n rhaid i'r Rhaglen gael ei chymhwyso'n ofalus gan ddilyn proses gliriach o rannu daliadau a chynnyrch yn segmentau.

I gloi, rwy'n ffyddiog iawn ynglŷn â dyfodol hirdymor ffermio yng Nghymru, yn enwedig ffermio yn yr ucheldir, ond rwy'n derbyn hefyd nad yw'r enillion presennol yn ddigon i gynnal gweithgaredd economaidd hyfyw heb ymyriad ariannol. Mae Colofn 2 mewn gwell sefyllfa i ddarparu swm sylweddol o gymorth wedi'i dargedu er mwyn rhoi cyfle i'r busnesau hynny sy'n dymuno addasu i redeg busnes mewn marchnad fyd-eang a chystadleuol symud ymlaen yn hyderus a chyflawni eu huchelgais.

Gall yr arian ychwanegol ddarparu'r adnodd ariannol a ffisegol i gyflawni'r gwaith pwysig hwn.

Er mwyn symud ymlaen â'r strategaeth hon, mae'n hanfodol bod cynllun gweithredu clir yn cael ei roi ar waith cyn gynted ag y bo modd.

Argymhellion

- **Mae angen i'r Rhaglen Datblygu Gwledig nesaf ar gyfer Cymru ganolbwyntio ar faterion economaidd ac mae angen i'w nodau a'i hamcanion anelu at newid parhaol yn hyfywedd amaethyddiaeth a sicrhau datblygiad cynaliadwy diwydiant bwyd Cymru;**
- **Dylai trydydd parti arbenigol fod yn craffu ar y rhaglen ehangach ar gyfer moderneiddio amaethyddiaeth ac yn darparu cyngor a chefnogaeth;**

- **Dylai cyfran sylweddol o'r arian Colofn 2 gael ei chlustnodi (yn feddal) ar gyfer Rhaglen Amaethyddiaeth Gynaliadwy â blaenoriaeth i'r ucheldir a newydd-ddyfodiaid / pobl ifanc sy'n ymuno â'r diwydiant;**
- **Datblygu cynllun gweithredu i fonitro cynnydd yr argymhellion sy'n cael eu hamlinellu yn yr adroddiad hwn.**

Llyfryddiaeth

Arsyllfa Wledig Cymru, 2013. *CAP Reform Phase 1 Report*, Caerdydd: Arsyllfa Wledig Cymru.

Banc Lloegr, 2013. *Industrial analysis of monetary financial institutions lending to UK residents*, Llundain: Banc Lloegr.

Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth, 2013. *Impact of CAP Reform*, Stoneleigh: AHDB.

Cyngor Cefn Gwlad Cymru, 2011. *Cattle grazing to deliver improved biodiversity outcomes in the uplands*, Bangor: Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

Fforwm Ucheldir Cymru, 2012. *Datgloi Potensial yr Ucheldir*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

HRH Prince of Wales, 2011. *On the Future of Food* [Cyfweiliad] (4 May 2011).

Joyce, I. M., 2013. *The role of grazing animals and agriculture in the Cambrian Mountains: recognising key environmental and economic benefits delivered by agriculture in Wales' uplands*, Aberystwyth: Undeb Amaethwyr Cymru.

Llywodraeth Cymru, 2012. *Farm Diversification*. [Ar lein]
Available at: <http://wales.gov.uk/docs/statistics/2012/121221sb1252012en.pdf>

Llywodraeth Cymru, 2013. *Agricultural and Horticultural Survey - data collection*. [Ar lein]
Available at: <http://wales.gov.uk/docs/statistics/2013/130605-changes-to-questions-on-the-3-june-2013-survey-of-agriculture-en.pdf>

Llywodraeth Cymru, 2013. *Sicrhau Twf: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru, 2013. *Ystadegau Cymru*. [Ar lein]
Available at: <http://cymru.gov.uk/statistics-and-research/aggreagate-agricultural-output-income/?lang=cy>

Pollock, C., 2013. Repairing a fractured pipeline: improving the effectiveness of agricultural R&D in the UK. *International Journal of Agricultural Management*, pp. 1-4.

Prifysgol Aberystwyth, 2013. *Llyfryn Incwm Fferm Cymru 2012/13*. Aberystwyth: Prifysgol Aberystwyth.


Royal Agricultural Benevolent Institution, 2013. *Impact of weather on calls received* [Cyfweiliad] (November 2013).

Rural Payments Wales, 2013. *Average Single Farm Payment in Wales* [Cyfweliad] 2013.


Wolters Kluwer (UK) Limited, 2013. [Ar lein]
Available at: <http://www.accountancylive.com>

Yr Adran Busnes Arloesi a Sgiliau, 2011. *Global Food and Farming Futures report*. [Ar lein]
Available at: <http://www.bis.gov.uk/assets/bispartners/foresight/docs/food-and-farming/11-546-future-of-food-and-farming-report.pdf>

Atodiad 1 – Map o Ardaloedd Llai Ffaffriol Cymru



Atodiad 2 – Map yn dangos yr ardaloedd sy'n cael eu heffeithio



Atodiad 3 – Rhestr Ymgynghori

Aled Roberts	Y Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol (ADAS)
Tim Bennett	Y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB)
Craig Sigley	Banc Barclays
Delyth Davies	DairyCo
Penny Coombe	Defra
Tony O'Regan	Yr Arolwg Busnesau
Aled Jones	Ffermwr
Aled Wothington	Ffermwr
Alwyn Watkin	Ffermwr
D. Matheson	Ffermwr
Gareth Wyn Jones	Ffermwr
Glyn Jones	Ffermwr
Gwyn Evans	Ffermwr
Mark Williams	Ffermwr
Messrs A G & E L Jones	Ffermwr
Mr & Mrs Jones	Ffermwr
Mr & Mrs Jones	Ffermwr
Mr Ellis & Son	Ffermwr
Phillip Edwards	Ffermwr
Will Jones	Ffermwr
Steven John Smith	Ffermwr
Alwyn Vaughan	Ffermwr
Rhys Parry	Ffermwr
Rhys Pugh	Cyswllt Ffermio
Nick Fenwick	FUW
Susan Jones	FUW
Gwyn Howells	HCC
Dai Davies	HCC
Ken Yorston	Pennaeth Safonau Masnach Cymru
Euryn Jones	HSBC
Prof Wayne Powell	IBERS
Malcolm Thomas	JCP Solicitors
Kevin Thomas	LANTRA
Mark Lord	Lloyds TSB
Alun Jones	Menter a Busnes
Michael Seals	Y Cwmni Stoc Trig Cenedlaethol
Phil Stocker	Y Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol

Simon Neale	Cyfoeth Naturiol Cymru
Ed Bailey	NFU Cymru
William Powell	NFU Cymru
Dylan Morgan	NFU Cymru
Mary James	NFU Cymru
Jeremy Distin	Yswiriant NFU Mutual
David Barnes	Llywodraeth yr Alban
George Dunn	Cymdeithas y Ffermwyr Tenant
David Green	UK Renderers
Derek Morgan	Grŵp Cyngori Gweinidogol Fforwm yr Ucheldir
Ieuan Joyce	Grŵp Cyngori Gweinidogol Fforwm yr Ucheldir
Liz Bickerton	Grŵp Cyngori Gweinidogol Fforwm yr Ucheldir
Lorraine Howells	Grŵp Cyngori Gweinidogol Fforwm yr Ucheldir
Andrew Slade	Llywodraeth Cymru
Ann Humble	Llywodraeth Cymru
Betsan John	Llywodraeth Cymru
Christianne Glossop	Llywodraeth Cymru
Gary Haggaty	Llywodraeth Cymru
Helen Minnice-Smith	Llywodraeth Cymru
Irene Allen	Llywodraeth Cymru
Kevin Austin	Llywodraeth Cymru
Laura Griffiths	Llywodraeth Cymru
Matthew Quinn	Llywodraeth Cymru
Nia Griffiths	Llywodraeth Cymru
Terri Thomas	Llywodraeth Cymru
Wyn Price	Llywodraeth Cymru
Keith Smyton	Llywodraeth Cymru
Simon Wilkinson	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

D.S. Cynhaliwyd dau weithgor trafod ar gyfer ffermwyr gan Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Cymru ac Undeb Amaethwyr Cymru – daeth 70 o ffermwyr i'r cyfarfodydd hynny.

Atodiad 4 – Llythyr Argymhellion Interim

15 Gorffennaf 2013

Annwyl Weinidog,

Diolch am fy ngwahodd i gynnal adolygiad o gadernid ffermio yng Nghymru. Rydych wedi gofyn i'r adolygiad fynd i'r afael â dau faes allweddol. Y maes cyntaf yw ymateb Llywodraeth Cymru, ynghyd â phobl eraill berthnasol, i dywydd garw mis Mawrth.

Bydd hyn yn cynnwys y gwersi y gellir eu dysgu o safbwynt ymdrin â hapddigwyddiadau fel eira eleni neu'r llifogydd difrifol yn Sir Ddinbych yn 2012. Yr ail faes yw adolygu pa fesurau y gallwn eu cyflwyno er mwyn gwella cadernid cyffredinol ffermio, gan roi sylw arbennig i'r sectorau cig eidion a defaid ar ucheldiroedd a bryniau Cymru.

Adborth interim yw'r llythyr hwn a bydd adroddiad llawer mwy manwl yn cael ei anfon atoch maes o law. Eto i gyd, amlinellaf isod fy sylwadau cychwynnol ynghylch y ddau faes.

MAES 1 - TYWYDD EITHAFOL A RHEOLI HAPDDIGWYDDIADAU

Rwyf wedi casglu tystiolaeth gan y ffermwyr yr effeithiwyd arnynt a'u cynrychiolwyr, staff Llywodraeth Cymru a fu ynghlwm wrth yr ymateb, Gweinyddiaethau Datganoledig eraill, y banciau, y Cwmni Stoc Trig Cenedlaethol a staff yr Awdurdodau Lleol sy'n cynnig cymorth ac arweiniad i ffermwyr.

Y Ffeithiau

Roedd eira mis Mawrth yn anarferol iawn, ac yn arbennig o ystyried dyfnder yr eira a'r gwyntoedd cryf a achosodd luwchfeydd sylweddol ar ucheldiroedd a mynyddoedd y Gogledd a rhannau o'r Canolbarth. Arhosodd yr eira am gryn dipyn yn fwy o amser na'r disgwyl am fod y tymheredd lawer yn is na'r cyfartaledd, gan waethygu'r sefyllfa. Ni welwyd sefyllfa debyg yng Nghymru ers dechrau'r 1940au.

Yn ail, roedd y ffermydd dan sylw o fewn ardaloedd lleol a phenodol iawn ac ni fyddai llawer o'r partïon perthnasol wedi bod yn ymwybodol o'r hyn a oedd yn digwydd hyd lawer yn ddiweddarach gan nad oedd yr wybodaeth gywir ar gael iddynt. Cafwyd dwy ŵyl banc ddilynol yn ystod y cyfnod ac felly nid oedd cynifer o

staff ar lefel reoli a lefel weithredol ar gael o fewn y sefydliadau perthnasol. Oherwydd y ddau ffactor hyn, bu'n anodd ymateb yn gynnar mewn modd effeithiol.

Yn drydydd, daeth yr eira ar ddiwedd cyfnod hir o dywydd garw iawn a ddechreuodd â gwanwyn oer 2011. Dyma'r amser wyna prysuraf ar gyfer diadellau'r ucheldiroedd. O'r herwydd collodd rhai busnesau lawer iawn mwy o ŵyn a mamogiaid magu na'r hyn a ddisgwylir yn ystod tymor wyna arferol. Mae Hybu Cig Cymru wrthi'n cynnal adolygiad er mwyn pennu union raddau'r colledion.

Canfyddiadau cychwynnol

Heb unrhyw amheuaeth, roedd y digwyddiad hwn mor anarferol fel y byddai'n afrealistig disgwyl ymateb perffaith. Gellir disgwyl felly wersi i'w dysgu ar gyfer pob parti perthnasol. Cafodd y digwyddiadau yng Nghymru sylw gan BBC Wales o'r dechrau'n deg ond cafodd digwyddiadau cyffelyb mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig lawer mwy o sylw ar lefel genedlaethol.

Rwy'n canolbwyntio ar hyn o bryd ar asesu'r mesurau a gyflwynwyd er mwyn ymateb i ganlyniadau'r tywydd eithafol. Mae'r holl Weinyddiaethau Datganoledig a DEFRA wedi darparu gwahanol fathau o gefnogaeth a chymorth dilynol mewn ymateb i wahanol bwysau. Nid wyf wedi edrych yn fanwl ar y mesurau hyn eto ond gallaf wneud hynny yn ystod ail hanner fy adolygiad, os ydych yn dymuno hynny.

Roedd y mesurau a'r polisiau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn gymharol briodol i'r sefyllfa a oedd yn datblygu. Eto i gyd, cafwyd ychydig o oedi cyn gweithredu, fel y nodwch yn eich tystiolaeth i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar 1 Mai 2013. Crybwyllwyd yr oedi yma mewn adborth a gyflwynwyd yn hwyrach na'r disgwyl gan y diwydiant a phartneriaid o fewn yr ardaloedd yr effeithiwyd arnynt. Rwyf wedi dod i'r casgliad, yn sgil fy nhrafodaethau, fod y mesurau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn cyd-fynd i raddau helaeth â'r mesurau a gyflwynwyd ar draws gweddill y DU. Eto i gyd, byddai'r camau ymyrryd wedi bod lawer yn fwy effeithiol petai'r mesurau'n barod i'w gweithredu ar unwaith mewn modd cyson a threfnus ar draws yr ardaloedd perthnasol.

Nid oedd yr wybodaeth a dderbyniwyd yn ystod yr wythnos gyntaf, man lleiaf, yn ddigon eglur a manwl. Roedd ceisio creu darlun cywir o'r sefyllfa yn anodd iawn i bawb gydol y cyfnod, ond gwnaeth cyfarfodydd wythnosol grŵp y diwydiant ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer Llywodraeth Cymru. Roedd prosesau ad-drefnu angenrheidiol a ddigwyddodd o fewn Llywodraeth Cymru'n ddiweddar hefyd yn golygu bod yn rhaid i rai swyddogion reoli gwaith cynllunio hapddigwyddiadau er nad oedd ganddynt brofiad blaenorol o wneud hynny.

Cwyn fwyaf y ffermwyr oedd y modd y gweithredwyd y mesur a oedd yn caniatáu iddynt gladdu eu stoc trig ar eu ffermydd. Roedd yn gwbl amlwg fod y gwahanol Awdurdodau Lleol a oedd yn ymdrin â'r mater wedi dehongli canllawiau Llywodraeth Cymru mewn modd gwahanol, gan weithredu'r mesur yn wahanol. Nid oedd rhai'n ddigon sensitif a hyblyg tra nad oedd gan eraill ddealltwriaeth glir o ddifrifoldeb y sefyllfa. Yn gyffredinol, nid oedd yr Awdurdodau yn deall pa dystiolaeth yr oedd ei

hangen i ganiatáu claddu ar ffermydd. Er gwaethaf y cwynion cyffredinol hyn, fodd bynnag, cafodd rhai o'r awdurdodau lleol eu canmol gan ffermwyr am ymdrin â'r sefyllfa mewn modd sensitif.

Roedd yr oedi cyn casglu stoc trig, a oedd yn annerbyniol ac yn peri hyd yn oed mwy o ofid i'r ffermwyr a oedd eisoes dan gryn straen oherwydd y tywydd, hefyd yn ffactor pwysig. Gellid priodoli'r oedi, yn rhannol, i broblemau o ran mynediad i'r ffermydd a nifer helaeth y casgliadau. Roedd casglwr gwael yn gwneud sefyllfa anodd hyd yn oed yn waeth; mae proses caffael busnes wedi datrys y mater hwn. Mae gwaredu stoc trig yn agenda benodol y mae angen ei hystyried yn ofalus yn y dyfodol. Tynnodd y grŵp Iechyd a Lles Anifeiliaid fy sylw at y gwaith sydd ar y gweill i ystyried opsiynau posibl. Rwy'n gobeithio cyflwyno rhagor o sylwadau ar y mater hwn yn fy adroddiad llawn yn ddiweddarach eleni.

Ar y cyfan, cafodd y cwmnïau porthiant a wnaeth barhau i ddarparu eu cynnyrch, er bod y cyflenwadau'n gyfyngedig ar adegau, eu canmol gan y ffermwyr.

Argymhellion Interim

Roedd yr adborth gan bawb perthnasol yn cadarnhau y byddai'r sefyllfa lawer gwell petai'r wybodaeth yn fwy cywir ac amserol a phetai Cynllun Rheoli Hapddigwyddiadau (ar gyfer amrywiaeth eang oddigwyddiadau posibl) cwbl glir ar gael ar gyfer llywio'r ymateb. Mae llawer iawn o waith cynllunio eisoes yn mynd rhagddo dan arweiniad Llywodraeth Cymru mewn perthynas â materion fel argyfyngau clefydau anifeiliaid, ond mae'n ymwneud yn benodol â'r mater dan sylw. Yn ogystal, mae llawer o gynlluniau eisoes mewn grym ar gyfer ymdrin â thywydd garw mewn ardaloedd lleol, ond nid oes un swyddogaeth ganolog sy'n sbarduno Llywodraeth Cymru i gynnull yr adnoddau angenrheidiol er mwyn cyflwyno ymateb cenedlaethol i dywydd eithafol neu hapddigwyddiadau eraill.

Dylai'r Cynllun Rheoli Hapddigwyddiadau fod ar gael ar-lein fel bod staff yn gwybod sut i ymateb, ac yn arbennig y staff hynny nad oes ganddynt lawer o brofiad yn y maes. Dylai fod yn gynllun unigol a chyffredinol yn cynnwys canllawiau manwl a fyddai'n sicrhau cysondeb wrth weithredu'r polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol, ym mha le bynnag y mae angen.

Dylai'r Cynllun Rheoli Hapddigwyddiadau:

- Gael ei ddatblygu yn dilyn asesiad risg sylweddol a fyddai'n ystyried y digwyddiadau tebygol a allai effeithio ar ffermio, da byw neu bobl. Mae'n rhaid iddo fynd i'r afael ag argyfyngau a achosir gan ddigwyddiadau cronig a difrifol.
- Cael ei weithredu gan y cydgysylltydd enwebedig pan gaiff camau eu sbarduno a chynnwys y camau canlynol:
- Caiff ymateb brys ei sbarduno mewn ymateb i ddigwyddiad, fel y diffinia asesiad y Cynllun Rheoli Hapddigwyddiadau.
- Sefydlu tîm wedi'i hyfforddi'n addas sy'n meddu ar yr awdurdod a'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer rheoli canlyniadau digwyddiad. Dylai'r tîm fod yn dîm

amlddisgyblaethol a dylai gynnwys aelodau o unrhyw asiantaeth/rhanddeiliaid sy'n debygol o fod yn rhan o'r ymateb.

- Cael ei brofi o bryd i'w gilydd drwy ddefnyddio ffug ddigwyddiadau.
- Dylai cydgysylltydd y Cynllun Rheoli Hapddigwyddiadau gynnull y tîm ymateb ynghyd lle y bo'n bosibl neu drwy fideogynadledda/galwad cynadledda. Unwaith y byddant yn dod ynghyd bydd angen ystyried yr agweddau canlynol;
- Yr angen i gynnal asesiad,
- Gweithredu mesurau priodol er mwyn ymateb i'r digwyddiad, gan gynnwys cynllun cyfathrebu,
- Bydd tîm y Cynllun Rheoli Hapddigwyddiadau yn cyfarfod mor aml ag sydd angen i fonitro hynt y gwaith hyd nes y bydd yr argyfwng drosodd.

ARGYMHELLIAD CYNNAR – Dylai Cynllun generig ar gyfer Rheoli Hapddigwyddiadau gael ei greu, a dylid penodi pobl fewnol ac allanol a'u hyfforddi i ymateb i argyfyngau.

Mae adborth cywir yn gwbl allweddol er mwyn gallu rheoli'n effeithiol unrhyw argyfwng neu sefyllfa; mae'n dangos pa mor ddifrifol yw'r digwyddiad yn y lle cyntaf ac yn rhoi gwybodaeth gywir am yr ymateb yn rheolaidd. Mae pawb perthnasol, yn hytrach na'r llywodraeth yn unig, yn gyfrifol am wybodaeth a dylai rhwydwaith effeithiol gael ei sefydlu'n ffurfiol a'i nodi yn y Cynllun Rheoli Hapddigwyddiadau. Dylai'r rhwydwaith gynnwys rhwydwaith rhanbarthol y Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm, Cyswllt Ffermio, elusennau ffermio ac undebau'r ffermwyr. Gorau po ehangaf yw'r rhwydwaith.

ARGYMHELLIAD CYNNAR – Dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei rhwydwaith ar gyfer casglu gwybodaeth a sicrhau bod y rhwydwaith yn cael ei frifio'n ddigonol ar gyfer pennu pa ddigwyddiadau sy'n sbarduno camau gweithredu.

Gellir disgwyl i fusnesau cydnerth ymdopi â cholledion yn ystod cylch busnes arferol ac yn amlach na pheidio mae'r blynyddoedd da'n gwneud iawn am y blynyddoedd gwael. Eto i gyd, lle mae busnesau'n wynebu colledion eithriadol, eu dull arferol o reoli risg yw yswiriant. Mae gwahanol opsiynau yswiriant ar gael ar gyfer ffermwyr sy'n cynnwys risgiau cyffredinol ond nid oes yswiriant penodol ar gael ar gyfer

colledion yn sgil trychineb. Mae NFU Mutual wrthi'n ystyried yr opsiwn hwn a chaiff ei ystyried mewn rhagor o fanylder yn yr adroddiad terfynol.

ARGYMHELLIAD CYNNAR Dylai yswiriant ar gyfer trychineb gael ei ystyried fel dull o reoli risg yn wyneb colledion eithriadol.

MAES 2 - GWELLA CADERNID Y DIWYDIANT FFERMIO YN FWY CYFFREDINOL

Mae effaith y tywydd eithafol wedi hoelio sylw ar berfformiad y sector ffermio ac wedi tynnu sylw hefyd at ba mor economaidd fregus yw rhai o'r busnesau sy'n rhan ohono. Rydych wedi gofyn i mi gyflwyno argymhellion ynghylch sut y mae sicrhau bod gan y sector amaethyddol sylfeini cadarn fel y bo'n gynaliadwy yn y tymor hir. Ar ôl cynnal dadansoddiad cychwynnol o'r data a gasglwyd yn ystod yr arolwg o fusnesau fferm, rwyf wedi penderfynu canolbwyntio yn yr adroddiad interim hwn ar ffermio ar ucheldir Cymru.

Mae'r ucheldiroedd yn arbennig o bwysig i'r amgylchedd, i gymunedau gwledig ac i strwythur y diwydiant defaid yng Nghymru: byddai llai o ffermio yn yr Ardaloedd dan Anfantaes Fawr ar yr ucheldir yn cael effaith andwyol ar yr holl elfennau hyn. Byddaf, er hynny, yn mynd ati yn fy adroddiad llawn i gynnal adolygiad ehangach o'r holl weithgareddau a'r sectorau ffermio allweddol yng Nghymru.

Rwyf wedi pwyso a mesur tystiolaeth oddi wrth ffermwyr, eu cynrychiolwyr, staff Llywodraeth Cymru, Fforwm yr Ucheldir, Menter a Busnes a hefyd oddi wrth unigolion eraill sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r diwydiant neu sy'n gysylltiedig ag ef. Rwyf hefyd wedi ystyried adroddiadau eraill sy'n berthnasol i fy adolygiad ac wedi defnyddio'r argymhellion ynddyn nhw lle bo hynny'n briodol.

Rwyf hefyd wedi cynnal dadansoddiadau cychwynnol o'r wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd am berfformiad ariannol y sector ffermio. Rwyf yn dal i ddisgwyl am ragor o wybodaeth ariannol elfennol a byddaf yn mynd ati i ddadansoddi'n fanylach wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

Ar sail fy nadansoddiad bras o sefyllfa ariannol y sector, rwyf wedi dod i'r casgliad nad yw'r modelau busnes presennol ar gyfer rhoi cymorth cyhoeddus i'r diwydiant ffermio ar yr ucheldir, sef Cynllun y Taliad Sengl (SPS) a Glastir, yn gynaliadwy, a bod hwn yn fater y mae angen rhoi sylw iddo ar fyrder.

A hwythau'n wynebu prisiau is, costau uwch, a llai o gymhorthdal, ymateb rhesymegol y rhan fwyaf o ffermwyr fyddai cwtogi ar nifer yr anifeiliaid ar eu daliad er mwyn lleihau'u colledion. Mae'n ddigon posibl y byddai rhai'n rhoi'r gorau i ffermio yn gyfan gwbl.

Daeth yn amlwg iawn, yn ystod y trafodaethau rhyngof i a'r diwydiant, HCC a chynrychiolwyr y sectorau amgylcheddol, y byddai canlyniad o'r fath nid yn unig yn effeithio ar arferion ffermio a/neu reoli tir yng Nghymru, ond y byddai hefyd yn cael effaith hynod negyddol ar yr amgylchedd, ar y diwydiant amaethyddiaeth yn fwy cyffredinol yng Nghymru, ac ar ein cymunedau a'n diwylliant.

Fodd bynnag, nid wyf o'r farn mai mater syml o roi mwy o arian cyhoeddus i ffermydd yr ucheldir yw'r ffordd orau o greu diwydiant cadarnach. O wneud hynny, byddai'r arferion presennol yn ymwreiddio'n ddyfnach ac ni fyddai unrhyw gymhelliant i ffermwyr fynd ati i wella'u busnesau. Nid yn nwylo Llywodraeth Cymru y mae'r holl arfau ysgogi ychwaith. Ond wedi dweud hynny, dim ond gan ychydig iawn o ffermwyr fyddai busnesau cynaliadwy yn y tymor byr i'r tymor canolig heb ryw faint o gymorth cyhoeddus.

Yn fy marn i, dylem fanteisio i'r eithaf ar y Cynllun Datblygu Gwledig er mwyn creu pecyn o fesurau integredig wedi'u targedu a fydd yn cefnogi perfformiad amaethyddol ac amgylcheddol da ac yn annog ffermwyr i fabwysiadu arferion ffermio blaengar a fydd, ymhen amser, yn fodd i greu busnesau mwy cadarn a chynaliadwy.

Rhaid inni fod yn ofalus â'r ffermydd hynny sydd wir yn yr Ardaloedd dan Anfantaes Fawr, a hefyd gyda rhostir, gan mai yn yr ardaloedd hynny yr ydym yn fwyaf tebygol o weld dadstocio. Mae angen inni sicrhau lefel briodol o ddwysedd stocio yn yr ardaloedd hynny er mwyn cynnal amrywiaeth amgylcheddol a gwireddu'r canlyniadau y mae eu hangen ar ein cymdeithas a'r sector ffermio yng Nghymru.

Mae'r Rheoliad Datblygu Gwledig yn cael ei aildrafod ar hyn o bryd, ac mae hynny'n gyfle unigryw inni sicrhau ein bod yn rhoi ffermio ar yr ucheldir ar y trywydd iawn i fod yn gynaliadwy. Dylid cynnwys mesurau a fydd yn caniatáu inni gyflwyno pecyn cymorth integredig. Bydd llawer iawn mwy i'w wneud yn ystod camau diweddarach fy adolygiad ond, hyd yma, mae'r adborth sydd wedi dod i law yn ategu'r safbwynt cynnar hwn.

Byddaf yn ymdrin yn ddyfnach o lawer yn yr adroddiad llawn â'r rhwystrau eraill a allai fod yn llyffethair i ffermio effeithlon ac effeithiol, ond roeddwn o'r farn ei bod yn bwysig i mi, hyd yn oed mor gynnar â hyn, roi arwydd o drywydd tebygol yr adroddiad.

ARGYMHELLIAD CYNNAR – Dylid ystyried cyflwyno pecyn integredig o fesurau ar gyfer yr ucheldir yn y Cynllun Datblygu Gwledig nesaf a fydd yn helpu i wella perfformiad y diwydiant ffermio a pherfformiad o ran yr amgylchedd, ac a ddylai, ymhen amser, fod yn fodd i greu diwydiant sydd ar sylfeini cadarn.

Os ydym am weld y sectorau da byw yn gwneud gwell elw, rhaid inni sicrhau bod y farchnad ddomestig a'r farchnad allforio ill dwy yn rhai cryf. Gallai Llywodraeth Cymru ychwanegu at yr arian ardollau sy'n cael ei ddefnyddio eisoes i ysgogi twf yn sectorau cig oen a chig eidion Cymru, ac yna defnyddio'r arian ychwanegol hwnnw i wneud mwy o'r gwaith gwerthfawr sy'n mynd rhagddo eisoes i greu marchnadoedd newydd ar gyfer y cynnyrch hwn. Mae strategaeth effeithiol sy'n chwilio am farchnadoedd newydd ar gyfer cig oen Cymru – yn enwedig yr ŵyn ysgafnach – nid yn unig yn ychwanegu gwerth at y diwydiant, ond mae hefyd yn gyfle i werthu cynnyrch sydd o ddiddordeb i amrywiaeth eang o gwsmeriaid yma a thramor.


ARGYMHELLIAD CYNNAR – Dylai Llywodraeth Cymru ychwanegu at yr arian ardollau er mwyn ariannu gwaith hyrwyddo â'r nod penodol o ddod o hyd i gyfleoedd newydd yn y farchnad.

Mae gennyf gryn dipyn o waith eto i'w wneud a llawer iawn o drafodaethau dilynol eto i'w cynnal, ond gobeithio bod digon o fanylion yn yr adroddiad byr hwn i ddangos sut y gellir ymdrin mewn ffordd gadarnhaol â'r ddwy agwedd ar yr adolygiad. Byddwn yn falch iawn o gyfarfod â chi i drafod mwy arno ac i geisio'ch barn am y ffordd ymlaen.

Yn gywir

Kevin

Atodiad 5 – Map Parthau Rhostir



Atodiad 6 – Llythyr yn Crynhoi'r Argymhellion

Rhagfyr 2013.

Annwyl Weinidog

Parthed: Yr Adolygiad o Gadernid Ffermio yng Nghymru – Crynodeb

Pan gwrddon ni'n ddiweddar, addewais y byddwn yn paratoi adroddiad ysgrifenedig i chi yn rhoi crynodeb o hynt fy Adolygiad o Gadernid y diwydiant amaeth cyn i chi wneud eich penderfyniadau ynghylch y diwygiadau i'r PAC yn y Flwyddyn Newydd, a chyn hefyd i mi gyflwyno fy adroddiad llawn i chi (y byddwch, yn ôl a ddeallaf, yn ei gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 28 Ionawr).

Fel y trafodon ni, at ddibenion fy adolygiad mae 'cadernid' yn cwmpasu 'busnesau hyfyw sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon, yn ateb y galw gan ddefnyddwyr ac yn ymdopi â'r amrywiaethau yn y cylch busnes neu â digwyddiadau naturiol eithriadol heb orfod dibynnu ar ymyrraeth gyhoeddus sylweddol'.

Yn Rhan 1 o'm hadolygiad rwyf wedi edrych ar y trefniadau ar gyfer delio ag argyfyngau tywydd annisgwyl (tu mewn a thu allan i'r Llywodraeth), ac wedi gwneud nifer o argymhellion.

Ar gyfer Rhan 2 (cadernid mwy hirdymor), mae'r dystiolaeth a gasglais hyd yma – ynghyd â'r data diweddaraf o'r Arolwg o Fusnesau Ffermio, a ddylai ddod ataf cyn bo

hir - wedi cadarnhau i mi nad oes modd ffermio da byw ar ucheldir Cymru ar hyn o

bryd heb gymhorthdal (ac eithrio ambell i ardal/achos). Roedd hyn yn arbennig o wir

dros y deunaw mis diwethaf ar ôl cyfnod o dywydd drwg cronig a ddilynwyd gan dywydd drwg eithriadol ym mis Mawrth 2013.

Hyd yn oed yn y flwyddyn cyn hynny, pan oedd y tywydd yn well, roedd ffermwyr yn yr Ardal dan Anfantais Fawr wedi dychwelyd elw net o £17k ond roedd hynny'n cynnwys taliadau cymhorthdal gwerth £44k. Mae prisiau defaid yn y farchnad wedi gostwng ers hynny a'r costau wedi mynd i fyny, felly rhaid inni baratoi i wynebu ffigurau gwael am y flwyddyn hon. Mae'r dadansoddiad ariannol yn pwyntio'n glir at ymyrraeth wedi'i dargedu; fel arall, mae'n bosibl y gwelwn ostyngiad sylweddol yn y lefelau stoc ar yr ucheldiroedd ac yn wir dadstocio fyddai ymateb rhesymegol unrhyw ffermwr mynydd yn y sefyllfa ariannol bresennol. Mae i fridiau mynydd ac ucheldir le hollbwysig yn nosbarthiad y sector defaid yng Nghymru. Os bydd y stoc ar yr ucheldir yn mynd i lawr yn sylweddol mae'n debygol y caiff hynny effaith niweidiol ar y sector da byw yn ei gyfanrwydd. Mae'n bosibl hefyd y bydd dad-stocio'n cael effaith negyddol ar yr amgylchedd; gall tan-bori fod cyn waethed â gor-bori. Hefyd, wrth gwrs, ffermwyr yw eich prif asiantwyr o ran sicrhau manteision amgylcheddol gan mai nhw sy'n rheoli'r tir yn y rhan fwyaf o'r wlad. Ochr yn ochr â'r enillion marchnad, mae angen ystyried effeithlonrwydd a chystadleurwydd hefyd. Fel y trafodon ni, mae bwch sylweddol rhwng y ffermwyr ucheldir sy'n perfformio orau a'r rhai sy'n gwneud yn weddol – heb sôn am y gagendor rhwng y gorau a'r gwaethaf. Nid oes modd cau'r bylchau hyn gyda chymhorthdal cyhoeddus; bydd rhaid datblygu busnesau effeithiol.

Ar y cyfan rwy'n optimistaidd ynghylch dyfodol amaethyddiaeth yn yr hirdymor, yn enwedig y brandiau da yng Nghymru sy'n elwa ar ewyllys da'r defnyddwyr tuag at gynnyrch o ansawdd da sydd â chysylltiad amlwg a chryf â lleoliad penodol. Yn ogystal, wrth i'r boblogaeth a'r cyfoeth gynyddu yn Asia a gwledydd eraill nid oes amheuaeth y bydd cynhyrchwyr bwyd yn gallu elwa ar hynny dros amser. Ar y llaw arall, bydd rhaid i gynhyrchwyr bwyd wynebu her fyd-eang y newid yn yr hinsawdd. Wrth i'r galw gynyddu a chynhyrchiant gael ei gyfyngu bydd prisiau'n codi. Yng Nghymru, mae hinsawdd a thir delfrydol i gynhyrchu da byw a llaeth a gellid dadlau y byddai'r newid yn yr hinsawdd yn 'fanteisiol' i gynhyrchwyr bwyd yma. Mae Cymru mewn sefyllfa ragorol i fanteisio ar y cyfleoedd hyn.

Mae'r enillion ariannol o'r diwydiant llaeth, o gymharu â da byw eraill, yn dangos yn gyffredinol bod y diwydiant yn gryf ac yn gallu gyrru ymlaen ac elwa ar y cyfleoedd a gododd yn sgil cael gwared ar y cwotâu llaeth. (Serch hynny, bydd rhaid parhau i fuddsoddi yn y sector llaeth i wneud yn siŵr bod y dulliau cynhyrchu a phrosesu gyda'r gorau yn y maes i gystadlu'n rhyngwladol.) Ar y llaw arall, nid yw'r sectorau cig eidion a defaid yn llwyddo cystal. Mae angen targedu cymorth at y sectorau hyn er mwyn i'r marchnadoedd ddechrau adlewyrchu'r gwelliant yn y rhagolygon bydeang. Wedi dweud hynny, tybiaf mai camgymeriad fyddai cynyddu'r cymorth uniongyrchol i sector yr ucheldir heb osod unrhyw amodau; ni fyddai hynny'n gwarantu gwerth am arian nac yn ysgogi'r newid sydd ei angen i greu diwydiant cynaliadwy a chadarn.

Gobeithio bod y rhagarweiniad uchod yn rhoi'r cyd-destun ar gyfer fy mhrif argymhellion, sef y canlynol:

- dylid trosglwyddo taliadau Colofn 1 y PAC i system daliadau sy'n seiliedig ar arwynebedd tir cyn gynted ag y bo'n rhesymol gwneud hynny; mae'r taliadau hanesyddol yn ystumio'r farchnad ac yn drysu'r broses o wneud penderfyniadau;
- serch hynny, dylid symud i daliadau seiliedig ar arwynebedd gan ailddosbarthu cyn lleied ag y bo modd rhwng y sectorau ffermio. Camgymeriad fyddai symud arian 'i fynny'r mynydd' i helpu ffermwyr yr ucheldir yn ddiamod, a rhaid i ffermwyr yr Ardal Dan Anfantaïs a ffermwyr tir isel aros yn gystadleuol (yn y Deyrnas Unedig, yn Ewrop ac yn rhyngwladol);
- dylid symud y gyfan uchaf a ganiateir o arian (h.y. 15%) o Golofn 1 i Golofn 2 er mwyn creu cronfa ddigonol i allu targedu'r cymorth i ffermwyr mewn ffordd gynaliadwy ac adeiladol. Rhaid i'r cynllun Datblygu Gwledig fod wedi'i gynllunio'n dda, gyda threfniadau cadarn a thryloyw i gyflawni ac olrhain cynnydd wrth newid i ddulliau ffermio sy'n ymateb yn well i'r farchnad, yn fwyhyblyg ac yn llai dibynnol ar gymhorthdal ond sydd hefyd yn amddiffyn a gwella adnoddau naturiol Cymru. Wrth ganolbwyntio ar ddatblygu'r diwydiant - ac edrych hefyd ar y cadwyni cyflenwi yn ogystal â'r cynnyrch cynradd – rhaid rhoi pwyslais ar gyfnewid gwybodaeth a dysgu, a chyflwyno dulliau gweithredu newydd i hybu symudedd o fewn y sector (pobl yn symud i mewn, yn symud ymlaen ac yn symud allan);

- dylid creu ‘pecyn ucheldir’ amlochrog o fewn mecanwaith newydd Colofn 2, gyda digon o adnoddau, i annog ffermwyr i wneud gwelliannau i’w ffermydd yng nghydestun arferion amgylcheddol da a rheoli adnoddau’n effeithlon. Dylai’r pecyn hwn annog y canlynol: cael rhagor o ffermwyr i weithredu mesurau amgylcheddol sy’n gweddu’n well i ffermio mynydd, rheoli glaswelltir yn well, gwell dealltwriaeth a rhagor o ddefnydd o stoc genetig sy’n perfformio’n well, gwell perfformiad ym maes iechyd a lles anifeiliaid a gwell dealltwriaeth o berfformiad y busnes ffermio. Mae ffermwyr yn deall sut mae Glastir yn gweithio felly yn fy marn i dyna ddylai’r sylfaen fod ar gyfer y genhedlaeth nesaf o gynlluniau ucheldir mwy integredig.

Rwy’n cydnabod y bydd 2014 yn flwyddyn o newid o fewn y PAC ac y bydd hynny’n cyfyngu ar yr opsiynau ar gyfer gwneud newidiadau ar unwaith, ond rwy’n argymhell y dylai cynifer â phosibl o’r mesurau uchod fod yn barod i’w cyflwyno erbyn dechrau 2015.

Mae gen i nifer o argymhellion eraill mwy manwl i’w cynnig, ynghyd â dadansoddiad

esboniadol, ond - i ailadrodd - drwy ddefnyddio’r cymorth i ysgogi arferion ffermio

gwell a mwy cynaliadwy, y nod yw paratoi ein sector ar gyfer economi’r farchnad gyda llai o ddibyniaeth ar gymhorthdal yn y dyfodol. Yn benodol, mae’n bosibl mai hwn fydd y cyfle strategol olaf, o bosibl, i lunio sector ucheldir mwy cynaliadwy. Os methwn â chymryd y cyfle hwn, mae perygl y bydd dyfodol ffermwyr yr ucheldir yn gwbl ddibynnol ar fympwyon y farchnad. Yn y tymor hirach byddai’r farchnad yn siŵr o ysgogi newidiadau ei hunan – ond byddai hynny’n achosi llawer mwy o helynt i ffermwyr ac yn amharu llawer mwy ar y diwydiant cynhyrchu bwyd ac ar gymunedau cefn gwlad.

Cofion gorau.

Kevin

Atodiad 7 – Cylch Gorchwyl yr Adolygiad

ADOLYGIAD ANNIBYNNOL O GADERNID Y SECTORAU AMAETHYDDOL YNG NGHYMRU

Y Cefndir

Ar ôl yr eira anarferol o drwm a welwyd yn y Gogledd yn ddiweddar, mae'r Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd wedi comisiynu adolygiad annibynnol o gadernid y diwydiant ffermio yng Nghymru. Bydd yr adolygiad yn ystyried materion ar lefel yr amryfal sectorau amaeth a hefyd ar lefel busnesau fferm. Bydd yn edrych hefyd ar allu'r diwydiant i ymateb i ddigwyddiadau annisgwyl, ac yn ystyried a oes modd iddo oroesi a ffynnu yn y tymor hirach gan ddefnyddio'r modelau busnes presennol. Bydd y gwaith yn canolbwyntio'n benodol ar y sector da byw ac ar sector yr ucheldir.

Bydd yr adolygiad i gadernid y diwydiant yn ystyried adroddiadau diweddar eraill hefyd, gan gynnwys, ymhlith eraill, adolygiad Hwyluso'r Drefn, proses Pwyso a Mesur Glastir, adroddiad Tasglu'r Ucheldir, a gwaith ar y newid yn yr hinsawdd. Bydd yn ategu gwaith arall perthnasol sydd wedi'i gomisiynu neu sydd ar fin dechrau, gan gynnwys dadansoddiad gan Hybu Cig Cymru o effeithiau'r tywydd diweddar ar y gadwyn cyflenwi cig coch yng Nghymru, prosiect i ddatblygu mwy ar Gynllun Cymorth Llywodraeth Cymru i Ffermwyr Ifanc/Newydd, ac ymarferion gwersi a ddysgwyd a gynhaliwyd yn fewnol gan Lywodraeth Cymru. O gofio mai pur anaml y mae digwyddiadau annisgwyl yn parchu ffiniau gweinyddol, bydd yr adroddiad hefyd yn ystyried y dimensiwn Cymreig ar faterion y gallai fod yn well mynd i'r afael â nhw ar lefel Prydain neu'r DU.

Disgwylir i'r adolygiad fod yn sail i'r gwaith o ddatblygu polisi ar ddiwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) yng Nghymru yn ystod y saith mlynedd nesaf, a disgwylir y bydd hefyd yn dylanwadu'n benodol ar y Cynllun Datblygu Gwledig nesaf. Bydd canfyddiadau'r adolygiad yn bwydo i mewn hefyd i waith ar gyfrifoldeb a rhannu costau, ac i agenda 'Hwyluso'r Drefn' yn fwy cyffredinol.

Cynhelir yr adolygiad annibynnol gan Kevin Roberts, cyn Gyfarwyddwr Cyffredinol Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, cyn Brif Weithredwr y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth, a chyn Gyfarwyddwr Cyffredinol y Comisiwn Cig a Da Byw.

Cylch Gorchwyl Arfaethedig

Asesu cadernid y diwydiant amaethyddiaeth yng Nghymru, gan gyfeirio'n benodol at ffermio da byw a ffermio ar yr ucheldir, a chynghori ar faterion cysylltiedig, gan gynnwys:

- effaith yr eira trwm mewn rhannau o'r Canolbarth a'r Gogledd ddiwedd Mawrth 2013, a'r rhannau a chwaraewyd gan y diwydiant, gan sectorau ategol, Llywodraeth Cymru, yr awdurdodau lleol, ac elusennau ffermio wrth i'r sefyllfa ddatblygu;
- sut y mae'r sector ffermio a'r sectorau ategol cysylltiedig yng Nghymru yn rheoli risg, a'u gallu (ar y cyd ac ar lefel busnesau unigol) i wrthsefyll digwyddiadau annisgwyl yn fwy cyffredinol;
- o gofio'r heriau a'r cyfleoedd ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, a hefyd yng ngoleuni'r profiad a gafwyd yn ddiweddar gyda'r tywydd garw, pwyso a mesur a yw modelau presennol busnesau fferm ar draws y prif fathau o ffermydd yng Nghymru yn gadarn ac yn hyfyw yn y tymor hirach;
- y rôl sydd gan y llywodraeth ac asiantaethau eraill (ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol) i'w chwarae o ran helpu i feithrin diwydiant cadarn;

a chyflwyno argymhellion i'r Gweinidog at y dyfodol.

Telerau ac amodau gwaith

Bydd staff yn y Grŵp Amaeth, Bwyd a'r Môr yn Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth Ysgrifenyddiaeth i'r adolygydd.

Telir costau teithio a chynhaliaeth yr adolygydd yn unol â chyfradd safonol Llywodraeth Cymru, a chynigir taliadau er mwyn gwneud iawn am golli enillion. Bydd angen mynd i gyfarfodydd ym mhob cwr o Gymru wrth gynnal yr adolygiad ac efallai y bydd angen teithio i rannau eraill o'r DU hefyd.

Ar gyfartaledd, disgwylir i'r adolygydd dreulio diwrnod neu ddau yr wythnos ar y gwaith hwn nes y bydd wedi cwblhau adroddiad yr adolygiad. Bydd disgwyl iddo hefyd fynd i gyfarfodydd a digwyddiadau wedi hynny, yn unol â chais y Gweinidog, i gyflwyno'i ganfyddiadau.

Mai 2013